

## tafod elái yn 40

*Pen-blwydd Hapus!*



Prin fyddai rhywun yn meddwl yn 1985 y byddai gymaint o lewyrch wedi bod ar ein papur bro dros gyfnod o 40 mlynedd.

Roedd yn gam dewr i ddechrau ar y fenter yn dilyn llwybr a droediwyd gan y papur bro cyntaf, Y Dinesydd, yn 1973. A oedd digon o gefnogaeth a deunydd i greu papur misol diddorol? A oedd digon am brynu'r papur? A oedd yn gynaliadwy?

Wel 40 mlynedd yn ddiweddarch, diolch i gefnogaeth llu o wirfoddolwyr fu'n casglu newyddion, paratoi erthyglau, casglu hysbysebion, gosod, dosbarthu a chasglu tanysgrifiadau mae Tafod Elái yn parhau yn ddiddorol, lliwgar a deniadol.

Diolch i'r Golygydd cyntaf, Emlyn Davies, a'i dîm a fu'n arloesi i gyhoeddi'r papur mewn dyddiau heb fanteision y dechnoleg modern ddaeth i'n helpu. Yn ogystal â'r newyddion lleol mae llu o gyfranwyr wedi darparu erthyglau diddorol, lluniau ac arlunwaith. Yn fuan wedi'r dechrau daeth Gŵyl Drama Tafod Elái yn uchafbwynt blynyddol i ddiddori cynulleidfaoedd o bob oed. Hefyd mae wedi bod yn fraint cofnodi llwyddiant yr ardal yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol.

A oes awydd i barhau gyda llwyddiant Tafod Elái? - dyna'r cwestiwn fydd angen ei ateb yn y misoedd nesaf.

### Papur Bro

I ferwr dŵr y rhwyfa'i daith, - deilen  
Er dilyw estroniaith;  
Arch bro, drwy bob anobaith,  
Uwch y dŵr yn gwarchod iaith.

Rhys Dafis 1992

**Cyfarfod Blynyddol  
Tafod Elái  
7yh Nos Fawrth, 14 Hydref  
yn y Ganolfan,  
Tabernacl, Efail Isaf**

## Troi'r Garth yn Binc



Nos Wener y 26ain o Fedi, gawson ni noson arbennig i godi ymwybyddiaeth am roi organau. Roedd y pentref i gyd wedi goleuo yn binc, gan taw dyma lliw yr wythnos codi ymwybyddiaeth, ac roedd pawb yn barod am y noson hyfryd oedd i ddod. I ddechrau'r noson gawson ni wledd o gerddoriaeth wych gan Gôr Meibion Llantrisant yn y Carpenters Arms, gyda'r lle yn llawn i'w gwyllo.

Ar ôl hynny, dechreuodd y daith gerdded i fyny'r Garth. Roedd rhaid i bawb wisgo dilledyn pinc ar y daith yma, a dod â fflachlump neu olau pinc hefyd. Roedd y trefnwyr eisiau i gopa'r Garth fod yn binc, er mwyn codi ymwybyddiaeth. Daeth llwyth o bobl o'r pentref i fyny, o blant ifanc i rai hŷn, ac roedd pawb yn edrych yn hyfryd yn cerdded yn eu pinc. Wrth i bawb gyrraedd copa'r mynydd, fe ofynnwyd i ni sefyll mewn siâp calon mawr wrth i'r drôn dynnu lluniau o bawb yn y canol.

Yna, fe gerddon ni gyd i lawr, a unwaith i ni gyrraedd y gwaelod aeth pawb i'r Carpenters Arms yn barod am sesiwn ganu gyda Huw M a ffrindiau. Roedd y dafarn yn llawn dop o bobl yn canu caneuon adnabyddus fel Sweet Caroline, Y Brawd Hwdini, Yma o Hyd a Jolene. Roedd y dafarn wedi ei oleuo yn binc, tu fewn a thu allan, ac roedd yn edrych yn hyfryd.

Diolch yn fawr i Carolyn Thomas o Efail Isaf am drefnu'r digwyddiad, gan fod ei mab yn aros am aren ar hyn o bryd ac felly roedd hi moyn codi ymwybyddiaeth.

Cofiwch plis i gofrestru ar y we os ydych yn dymuno rhoi organau, a hefyd cofiwch i sôn wrth eich teulu am eich bwriad. Gall rhoi organ safio bywydau pobl.

Mari Roberts



Y cerddwyr wedi goleuo'r Garth i atgoffa fod angen cofrestru



# tafod elái

**GOLYGYDD**  
Penri Williams  
029 20890040

**CYHOEDDUSRWYDD**  
Colin Williams  
029 20890979

Erthyglau a straeon  
ar gyfer rhifyn mis Tachwedd  
i gyrraedd erbyn  
24 Hydref 2025

**Y Golygydd**  
Hendre 4 Pantbach  
Pentyrch  
CF15 9TG  
Ffôn: 029 20890040  
**e-bost**  
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*  
<http://www.tafodelai.cymru>

Argraffwyr:



**EVANPRINT**

[www.evanprint.co.uk](http://www.evanprint.co.uk)

# CYMRAG

*Ariennir yn  
rhannol gan  
Lywodraeth  
Cymru*

Gwasanaeth addurno,  
peintio a phapuro

**Andrew Reeves**

Gwasanaeth lleol  
ar gyfer eich cartref  
neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves  
01443 407442  
neu  
07956 024930

I gael pris am unrhyw  
waith addurno



## Cyfarfod Blynyddol Tafod Elái 7yh, Nos Fawrth, 14 Hydref yn y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf

Yn dilyn cyfnod o bron i 40 mlynedd mae'r Golygydd presennol, Penri Williams, wedi penderfynu gorffen ar ddiwedd y flwyddyn.

Dros y blynyddoedd mae'r papur wedi bod yn rhan bwysig o fwrlwm Cymraeg yr ardal ac mae angen ystyried y ffordd orau i barhau'r gwaith.

Mae tua hanner cant o wirfoddolwyr yn cefnogi'n papur bro drwy ddarparu newyddion ac erthyglau, dosbarthu a hybu gwerthiant y papur, casglu lluniau, golygu, cynhyrchu a gweinyddu.

Mae'r papur yn lliwgar a diddorol ac yn ôl yr ymateb cyson ddaw i'n clyw mae pawb yn falch i'w ddarllen.

Cychwynwyd y papur gyda phwyllgor cryf o gefnogwyr yn 1985 ond pwyllgor bach iawn sydd wedi bod wrthi yn cynnal y papur ers rhai blynyddoedd.

I sicrhau llwyddiant Tafod Elái yn y dyfodol mae angen criw brwdfrydig i gymryd gofal o gyhoeddi'r papur deg gwaith y flwyddyn.

Felly dewch i'r **Cyfarfod Blynyddol am 7yh, Nos Fawrth, 14 Hydref yn y Ganolfan, Efail Isaf**, i ddatgan eich barn a chefnogi Tafod Elái.

## Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

### Athrawes Newydd

Braf yw croesawu athrawes newydd i'r ysgol sef Natasha Doyle sydd yn dysgu Blwyddyn 3. Mae Natasha newydd raddio o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar ôl dilyn gyrfa fel cantores



broffesiynol am nifer o flynyddoedd. Mae Natasha yn gyn ddisgybl i'r ysgol, fel Harriet John sydd yn dysgu'r Dosbarth Derbyn ac a ddechreuodd ar ei swydd yn nhymor yr haf. Pob llwyddiant i'r ddwy ohonynt.

### Gwobr Ail-Gylchu

Derbyniodd yr ysgol a'r Cyngor Eco wobwr arbennig o offer garddio - gan ganolfan Ail Gylchu Bryn Pica mewn seremoni yn yr ysgol. Gwobrwywyd yr ysgol am gasglu ac ail-gylchu cerdiau Nadolig a bocys wyau Pasg am ddeng mlynedd yn ddi-dor. Diolch yn fawr iawn i'r Cyngor Eco am arwain, mor llwyddiannus, y gwaith o ailgylchu.



Aelodau'r Cyngor Eco yn Derbyn eu Gwobr

### Prynhawn Coffi MacMillan

Diolch yn fawr i aelodau'r Cyngor Ysgol am drefnu prynhawn coffi i godi arian i elusen MacMillan. Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang - diolch i rieni a ffrindiau'r ysgol am gefnogi ac am eu haelioni.



Aelodau'r Cyngor Ysgol



**CLWB Y  
DWRLYN**



**CYLCH  
CADWGAN**

**Owain Rhys  
enillydd  
Coron Wreccsam,  
yn siarad am ei waith.**

**Nos Iau,  
23 Hydref 2025  
am 8.00yh**

Clwb Rygbi Pentyrch  
Mynediad £5.  
**Manylion pellach:**  
[clwbbydwrllyn@pentyrch.cymru](mailto:clwbbydwrllyn@pentyrch.cymru)

## “Ar y brig fo’n papur bro.”

Pan ofynnwyd i mi lunio pwt o erthygl am ddechreuadau *Tafod Elái*, yr atgof cyntaf a ddaeth i mi oedd am y don o ewyllys da a fodolai tuag at yr iaith Gymraeg yn yr ardal ar y pryd, a’r brwdfrydedd o blaid sefydlu papur bro. Gwelwyd hyder newydd yn yr iaith yn 1985, gydag un o bob pump o blant Taf-Elái yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, sawl capel a chymdeithas Gymraeg yn ffynnu, gwahanol gorau yn ennyn canmoliaeth eang, a Chlwb y Bont yn cael ail wynt. Pan gynigiodd y diweddar Ifan Wyn Williams mai *Tafod Elái* ddylai’r enw fod, roedd yna fwy nag awgrym o deyrnged i gyhoeddiad enwog Cymdeithas yr Iaith.

Roedd creu rhifyn cyntaf y papur yn batrwm o gydweithio cymunedol, gyda thîm helaeth a brwdfrydig wrth y gwaith. Pan dderbynias i’r gwahoddiad i fod yn gadeirydd y Bwrdd Golygyddol, feddyliais i erioed mai fi fyddai’n gorfod trefnu i gael teipio popeth mewn colofnau, a thorri’r rheiny’n daclus gyda siswrn i’w pastio i ffitio fel jig-so ar y tudalennau. Llythrennau *Letraset* wedi eu gludo’n ofalus oedd pob pennawd, a byddai bwrdd y gegin yn ymdebygu i ddsbarth meithrin am ddyddiau o bob mis wrth i’r darnau syrthio i’w lle. Yr unig gysur oedd gwybod fod hynny’n digwydd ledled Cymru gyda phapurau bro eraill, a bod y gwerthfawrogiad yn cyfiawnhau pob noson ddi-gwsg o gyfarfod y *deadline* bondigrybwyll.



Emlyn Davies, y Golygydd cyntaf, yn sôn am y datblygiad ar Rhaglen Hywel Gwynfryn yn 1985


Roedd noson lansio *Tafod Elái* yn achlysur cymdeithasol llawn hwyl a direidi, gyda Chlwb y Bont dan ei sang yn aros i’r cyflenwad cyntaf o’r papur gyrraedd yn syth o’r wasg, a mawr oedd y cyffro ymysg y darpar-ddarllenwyr. O’r diwedd, wele Rhys Llewelyn, y Trefnydd Dosbarthu, yn cyrraedd â’i wynt yn ei ddwrn a’i Dafod dan ei gesail. Ond cyn i’r werin gael cyfle i fodio’r tudalennau, gwahoddwyd y diweddar Ddr Dafydd Huws i gyflwyno

## Datblygiad y Papur

Ar y cychwyn roedd angen gludo stribedi o bapur wedi’u teipio er mwyn gosod y tudalennau gyda penawdau Letraset neu stensil. Prynwyd camera bach i gofnodi digwyddiadau o bwys gan fynd a’r ffilm i’w brosesu yn Tesco neu Boots mewn pryd i fynd â’r papur i’r wasg. Daeth y cyfrifiaduron cyntaf yn fforddiadwy erbyn diwedd y 1980’au a prynwyd PC Amstrad 1512 i deipio’r cynnwys. Ond parhawyd i ddefnyddio printer gyda’r llythrennau ar olwyn daisy-wheel am y saith mlynedd cyntaf



Yna yn Ebrill 1992 cychwynwyd apêl i ariannu printer laser. Ar y pryd roedd pris argraffydd laser yn £900 a bu’n dasg sylweddol. Llwyddwyd i gasglu’r arian ac o rifyn cyntaf 1993 roedd y gwaith o osod y papur wedi symud i argraffu desktop ar gyfrifiadur.



Wrth i’r defnydd o gyfrifiaduron ledaenu dechreuodd y newyddion ddod i mewn ar ebost gan leihau’r baich o deipio. Ac yna daeth y camera ddigidol ar ddechrau’r ganrif newydd i osgoi’r gwaith o brintio lluniau. Yn 2002 ymddangosodd tudalennau’r papur ar y we fyd eang am y tro cyntaf.

Roedd lluniau *Tafod Elái* yn ddu a gwyn hyd 2007 yna cyhoeddwyd y clawr a’r cefn mewn lliw. Erbyn rhifyn Ebrill 2018 (326) roedd y rhan fwyaf o’r lluniau mewn lliw.

Y pris i gychwyn yn 1985 oedd 20c yna yn y ganrif newydd cynyddodd y pris - 2000 25c, 2002 40c, 2006 60c, 2010 80c a Hydref 2020 £1. Am gyfnod byr yn 2020 ni argraffwyd y papur oherwydd Covid ond llwyddwyd i barhau i gyhoeddi ar y we.

adolygiad byr-fyfyr o’r cynnwys. Gwnaeth hynny yn yr ysbryd gorau, gan enllibio bob cyfrannwr a thynnu sylw at bob brycheuyn a gwall lle bu diawl du’r wasg yn ddiofal, a thraethu heb beri loes i neb, nes bod pawb yn rowlio chwerthin yn ddi-baid.

Yn yr ail rifyn, cafwyd cywydd cyfarch gan Islwyn Jones (Gus), ac fel hyn mae’n cloi ei gampwaith:

“Mor braf yn wir cael *Tafod Hyglyw* am ein byw a’n bod; Yn unol d’wedwn heno- Ar y brig fo’n papur bro.”

Emlyn Davies

## Papur Llawn



Penri Williams, y Golygydd, yn cael ei holi ar Pnawn Da yn 2001

Prin bod gornel sbâr wrth osod tudalennau *Tafod Elái* bob mis. Mae’r Gohebwyrr Lleol yn brydlon gyda’u newyddion a daw lluniau lliwgar i gyfleu gweithgarwch ein hysgolion. Adroddwyd ar lwyddiant ein corau, dawnswyr ac unigolion. Mae’r ardal wedi dioddef effaith llifogydd ac er yr holl ddiestr mae Clwb y Bont yn parhau i ffynnu. Dros y blynyddoedd mae cyfresi o erthyglau diddorol wedi dod gan gyfranwyr di-ri yn olrhain bywyd a hanes yr ardal. Cynhaliwyd cystadlaethau i’r ysgolion ac aeth amryw un o’r enillwyr ymlaen i fod yn enwog yn eu maes. Yn ystod cyfnod y Covid yn 2020 pan oedd newyddion yn brin daeth nifer i’r adwy gan gynnig erthyglau diddorol. Gadawyd bylchau yn yr arlwy wrth i ni gollu cyfranwyr beiddgar - Gareth Miles, Gwyn Griffiths a Dafydd Huws, D.J. Davies ein ffotograffydd hynaws, a hefyd Carol, fy ngwraig, fu’n cadw trefn ar y cyfan.

Gellir darllen nifer helaeth o ôl-rifynnau *Tafod Elái* ar wefan tafodelai.cymru.

Dyma rai o’r cyfresi a gyhoeddwyd dros y 40 mlynedd diwethaf:-

Portread y Mis - Cystadleuaeth Gŵyl Dewi Ysgolion - Dyddiadur Dosbarth Canol Capeli Bethlehem a Tabernacl  
Bywyd gan Tom Dom - Gŵyl Ddrama Cystadleuaeth Iolo Morganwg - Snichod Croesair Col - Hanes yr Ardal  
Colofn Menter Taf Elái a Menter Iaith Menter Caerdydd - Y Golofn Bop Tudalennau'r Ysgolion - Calendr Ar drywydd llên yn Rhondda Cynon Taf O Dan yr Wynneb - Chwaraeon Colofn Blasus a Iachus - ayb!!!

### Yr Argraffwyr



Three Arch Press 1985 - 1995



Gwasg Morgannwg Castell Nedd 1995 - 2017



Copyprint Trefforest 2017 - 2019



2019 - 2025

## Gŵyl Ddrama Tafod Elái 1986 – 2002

### Atgofion Colin Williams

O bryd i'w gilydd bydd 'na gyfaill yn codi sgwrs ac yn cyfeirio at hwn a hwn neu hon a hon mewn rhyw wisg anhebygol a cholur gormodol, mwstash afreolus, acen *doggy*, wig neu staes cwbwl bisâr. A finne bron wedi anghofio am y perfformiad neu wedi ceisio'i wthio i neuadde pellaf y cof. Bu dwy flynedd ar bymtheg o'r Wyl Ddrama yn ei chartref blynyddol yn Neuadd Dowlais, Pentre'r Eglwys yn fodd i roi llwyfan i dalentau ifanc ac yn fodd i hen stejars y fro anghofio'u pryderon dyddiol.

Roedd *Tafod Elái*'n dathlu'i ben-blwydd cynta ac awgrymwyd yn y pwyllgor y dylen ni ddathlu'r achlysur. Taro ar y syniad o wyl ddrama. Ac i'r beirniad cynta un, yr amryddawn Dyfan Roberts, roedd yn rhagweld dyfodol llewyrchus "mi fyta i'n het Hen Ddyn Budur os na fydd Gŵyl Ddrama Tafod Elái yma ymhen can flynedd".

Bu adrannau drama ysgolion yr ardal yn driw iawn ond hyd yn oed brafiach oedd i'r disgyblion weld eu hathrawon yn perfformio ac yn barod i ymlacio a joio yn eu gŵydd. Mae cymaint o'n gweithgaredd Cymraeg ni'n ymwneud â phlant ac ynghlwm ag ysgolion. Braf oedd creu noddfa glyd a diogel, pau iaith gwahanol - gaeafau o rowlio chwerthin ac ambell foment ysgytwol ddwys i'n sobri fel cynulleidfa. Yr hen stejars yn mynd am y gwirion a'r disgyblion ysgol yn mynnu mynd â ni i gorneli tywyll dwys. Cafwyd dramâu, nosweithiau llawen, pantomeimiau, hyd yn oed berfformiad dawns, *virtuoso* gitâr, heb anghofio anterliwt. Wrth i hanes yr wyl fynd ar led, denwyd sawl cwmni o bell - *Cwmni Rhos y Gar* o Lanaman, *Cwmni Carreg Galch*, Rhydaman ac Ysgolion Penweddig, Ystalyfera a Gwynllyw yn eu plith. Categori am bopeth a thlws i bawb oedd yr arwyddair.

A'r gynulleidfa! Dyna foddhad oedd llenwi'r neuadd am dair, weithiau bedair neu bum noson. Y rhesi blaen yn câl eu bachu gan y plant lleia - ambell un yn gegrwrth ac ambell un yn cael trafferth cadw llygaid ar agor y noson honno, ac yn yr ysgol drannoeth yn ôl y sôn. I ddisychedu'r *punters* bu cylchoedd meithrin a Merched y Wawr yn darparu te a choffi - ac roedd 'na gystadleuaeth



Diolch arbennig i Colin Williams am drefnu'r diddanwch a'r hwyl ac am roi cyfle i gymaint o bobl ifanc a hŷn i ddatblygu eu doniau ar y llwyfan.

answyddogol am y bara brith gorau. Roedd hi fel camu nôl i neuaddau pentref ein plentyndod - a'r alwy i weld yn plesio.

Fel ymhob menter lwyddiannus, roedd 'na griw dethol dibynadwy sefydlog. Ffotograffydd 'swyddogol', yr annwyl DJ Davies, Tonyrefail. A chyn bod sôn am ffôn symudol a'r camra sydyn, byddai DJ wedi datblygu lluniau'r noson honno i'w harddangos yng nghyntedd y neuadd y noson ganlynol! Yno'n nosweithiol byddai Trysorydd yr wyl, Dafydd Knight, a ofalodd am y cyfrifon am oes yr wyl. Cyfeilydd ffyddlon yr wyl oedd Carey Williams. A byddai Penri yno wrth reswm - yn ffilmio pob eiliad ar ei declyn diweddaraf ac yn gosod yr hanes yn rhifyn Nadolig Tafod Elái o fewn 24 awr - ei wyrth fisol.

Ac yna'r beirniaid. Buom yn freintiedig fel cymuned i ddenu / berswadio / dwyllo gwir selebs y cyfnod i ddod i gloriannu'n gŵyl fach ni. Dyfan Roberts oedd y cyntaf. Roedd yn byw yn Llantrisant. Yna, Huw Ceredig yn cael ei gyfareddu gan gynhyrchiad y Dwrllyn o'r *Dyn Codi Pwysau!!* Ym 1988, y meistrolgar, y gwylaidd a'r annwyl, John Hefin a welai debygrwydd rhwng yr Wyl â thraddodiad drama amatuer ei fagwraeth yn Sir Aberteifi. Ym 1989 daeth T James Jones atom a gwobrwyo Ysgol Cwm Rhymni am y trydydd tro'n olynol am eu perfformiad o *Tisiw*. A'r oedolion? Clwb y Bont eto, a'u *Dal y Ddysgl yn Wastad* - yn rhannol oherwydd cyfraniadau Hefin Griffiths a Gerallt Pennant. A ble maen nhw erbyn hyn?



Drama Clwb y Bont yn 1988

Ym 1990, neb llai na Gwenlyn Parry ei hun ac yn ei ddilyn ym 1991, Emyr

Edwards. Ym 1992, Elisabeth Miles oedd yn pwyso a mesur gan gynnwys cwmni ei brawd. Ym 1993, Iola Gregory. Ac yn y flwyddyn honno, rhyfeddod y rhyfeddodau, *Y Dwrllyn* yn fuddugol gyda'u Noson Lawen ac hefyd Drama i Oedolion, *Hi o Bawb*. Roedd gŵyl 1994 yn bedair noson unwaith eto a'r beirniad, Llion Williams, yn ganmoliaethus ond yn cael trafferth dyfarnu'r gwahanol wobrau a thlysau. Roedd 1995 hefyd yn wyl pedair noson, 13 cwmni gan gynnwys cwmni Noson Lawen y Dwrllyn yn ogystal â Chwmni Drama'r Dwrllyn A a Chwmni Drama'r Dwrllyn B - ar ba sail y'i graddiwyd, pwy â wyr! Dyna beth oedd bwrllwm y Dwrllyn a'r aelodau yn ifanc, heini ac annoeth. Honodd Heddyr Gregory ei bod wedi'i phlesio'n fawr.

Ym 1996, 13 cwmni umnwaith eto, y neuadd yn orlawn ac roedd Caryl, y beirniad y flwyddyn honno'n ddigon o sbort i ymuno yn mhantomeim buddugoliaethus *Y Dwrllyn*. Gŵyl 5 noson ac 19 cwmni wrthi ym 1997 - dawn denu Cliff Jones mae'n siwr.



Moto-beic y Morsiaid yn 1997

Gillian Elisa ym 1998 yn cael ei hatgoffa o asbri Theatr Felinfach. John Pierce Jones yntau ym 1999 yn rhyfeddu at y bwrllwm yn yr ardal. Yn 2000, derbyniodd yr hyfryd Sioned Mair y gwahoddiad gan gyflwyno Tlws Actor yr Wyl i'r haeddianol Elin Morse.

Yn 2001, daeth Ifan Huw Dafydd atom a chwmni Merched y Wawr y Garth yn derbyn canmoliaeth ganddo am *Mrs Carusoe* er ei fod yn awgrymu fod tuedd i or-actio!!! Yn yr wyl olaf un, croesawyd Huw Garmon yn feirniad ac yntau'n dal i ddathlu llwyddiant *Hedd Wyn*. Fel y crybwyllais, mawrion y genedl yn barod i roi statws i'n gŵyl fach ni ac ymuno yn yr hwyl. Rwyf mor ddiolchgar iddynt un ac oll.

Os maddeuer sylw personol, roedd y cyfan yn lot o hwyl. Roedd promptio Meima a'i chriw o gefn llwyfan yn heriol (gan nad oedd y teulu wedi llwyddo i gwrdd i ymarfer fel cwmni cyn perfformio!!) Ac af i ddim i sôn am y moto beic! Roedd rhannu gwely gydag actores ddawnus yn *Gwirion Hen* yn brofiad ac Ifan Robaits wedi mynd OTT gyda'r colur - 'tae ni'n ail berfformio hi heddiw, fyddai dim galw am yr holl golur ar Ann na finne!!

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:

Nia Williams

colin.williams@talktalk.net

## Pob lwc, Cadog

Mae y band Cadog - enillodd frwydr y bandiau gwerin yn Eisteddfod Pontypridd llynedd - wedi bod yn brysur iawn yn perfformio yn ddiweddar. Band gwerin yw Cadog gyda Iestyn Gwyn Jones yn canu ac ar y gitar, a Morus Jones ar y sacsoffôn.

Maent yn gobeithio trefnu noson Gymraeg yn Nhafarn y Creigiau dros y Nadolig!



## Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau . . .

. . . i holl ddisgyblion y chweched adawodd ysgol Plasnewydd eleni sy' bellach wedi cychwyn ar lwybrau tra gwahanol erbyn hyn - boed gyrsiau coleg a phrifysgol, prentisiaethau, teithio, byd gwaith! Mae'r dewis yn eang! Gwyddom bod Morus Jones ar ei ffordd i brifysgol Hartpury ger Caerloyw i ddilyn cwrs Chwaraeon, Ymarfer a Maeth. Ond cyn

## Atgofion yr Ŵyl Ddrama (parhad)

Roedd gweld fy *lines* ar gefn pelmet y llwyfan ddeuddeg mis yn ddiweddarach yn dwyn y cyfan nôl i gof. Fe'm boddhawyd gan ein talentau ifanc ond mae cameos un actor wedi'u serio arnaf, un flwyddyn yn hoeden fach ddiniwed (a ddim mor ddi-niwed) a'r flwyddyn ganlynol, yn hen wreigan fusgrell ac ambell *twitch* amrhisiadwy. Y digymar Sheila Dafis (a 'falle bod sgript y gŵr wedi helpu).

Mae 'na gyfnod i bob dim a melyn iawn yw hel atgofion am gyfnod yr ŵyl. Diolch i'r holl gwmnïau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad. Diolch am y cyfle i fod yn rhan o bethe. Sut awn i ddathlu deugain mlwyddiant Tafod Elái? – o mam bach, na!!

Rwy'n mawr obeithio y bydd rhywrai yn dal i godi sgwrs: "ti'n cofio, pwy odd e dwéd . . . yn gwisgo'r sbectol pot jam 'na ac yn angofio'i leins ac yn adlibio . . ."

hynny roedd 'na wyliau bach ola yn yr Eidal. Mae Morus eisoes wedi bod i America, Slofenia, yr Alban, Marrakech a Lyon a chwydro Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwetha gan lwyddo i redeg ambell i farathon a hanner marathon. Da iawn, Morus. Amser i ddechrau ar dy astudiaethau nawr. Ond diwedd Medi buodd e a'r band Anhunedd o Blasmawr yn perfformio yn Nulyn - diolch i Fenter Caerdydd am y cyfle. Pob lwc, Morus!

Dewch â'ch stori y gweddill ohonoch.

## Croeso i'r byd - Anwen Fflur!

Ar y 27ain o Awst ganed Anwen Fflur - yn ferch i Tom ac Eleri Curran, Coety. Dyma i chi lun bendigedig ohoni gyda'i chwaer fawr, Efa Mared. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu a siwr bod Gordon a Helen Middleton yma'n y Creigiau a Patricia Curran yn Notais, Porthcawl yn hynod falch ohonot. Mwyhewch deulu bach! A phob bendith.




## Gwellhad buan

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Alun Wyn Bevan, Roy Davies ac Olwen Griffiths. Yn meddwl amdanoch.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Wyn Jones a'r teulu. Bu farw Tad Wyn, Mr Eric Jones, Trimsaran - gynt o Fferm y Rhos ar y 15fed o Awst. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlogsgfa Llanelli ar Fedi'r chweched. Yn anfon cwtsh a chariad i Wyn, Mari, Efa a Llew.



## Merched y Wawr Cangen y Garth

I agor ein tymor newydd cawsom gwmmi 'tipyn o dderyn!' Cymeriad hoffus, brwd a chynnes - y naturiaethwr/adarwr hynod wybodus - Daniel Jenkins-Jones. Am awr ddifyr! Mewn llun a gair rhannodd gyfrinachau a ffeithiau anhygoel am 'fywydau rhyfeddol adar'.



Dechreuodd gyda'i gariad cynta - sef y Titw Mawr. Yna'r wennol ddu - aderyn â grymoedd aruthrol - cyn troi at dderyn bach sy'n pwyso yr yn faint â darn punt ond sy'n dodwy hyd at unarddeg o wyau gan eistedd arnynt am dair wythnos ac yna bydd yn eu bwydo gyda bron i gant o lindys fesul cyw fesul diwrnod! Disgwylir i'r Titw Tomos Las fyw i fod yn ddyflwydd oed.

Wedyn - y dryw bach - deryn bach falle - ond swm mawr. Yna cawsom ein cyflwyno i'r hebog tramor. Ferrari byd yr adar! Mae'n gallu hedfan ar gyflymdra o . . . 256 milltir yr awr. Debyg bod yna bâr o hebogiaid tramor yn nythu yn y chwarel ym Mhentyrch. Daethom i adnabod yr adar yma trwy luniau arbennig a gwybodaeth hynod Daniel. Y dylluan wen - sy'n hela trwy sain. Y creyr glas - sy'n cael ei adnabod fel garan, crychydd, crychydd cam - cymaint o enwau pert. Ond nid yw'n gallu nofio - er sicred ei anel!



Wedyn - cnocell y coed - aderyn hardd - sy'n cnocio - ar raddfa 20 cnoc yr eiliad. Dychmygwch! Cymaint o ffeithiau rhyfeddol. Mor falch mod i yno i ddysgu. Jyst meddylwch am hyn - morwennol yr Arctig - aderyn sy'n gallu byw dros hanner cant o flynyddoedd - a hynny ar ôl hedfan dros 11,219 o filliroedd! Mae adar wir yn bethau rhyfeddol. Diolch Daniel am ein cyflwyno i gymaint o rai diddorol.

Mis nesa - cawn gwmmi Richard Elfyn - yr actor amryddawn. Dewch i fwynhau ei stori - p'nawn Mercher, Hydref 22ain am ddau yn y Clwb Rygbi.

## O DAN YR WYNEB

**Martin Huws sy'n holi cyn-Aelod Seneddol Arfon, Hywel Williams, am ei nofel gynta, *Ceiri*, am fygythiadau i gymuned yn 1938.**



### Beth yw eich gwaith?

Ymdeolaais y llynedd wedi 23 o flynyddoedd fel Aelod Seneddol.

### Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?

Gweithiwr cymdeithasol ym Mhontypridd ac ym Mhwlheli. Gweithiwr prosiect a Phennaeth y Ganolfan Ymarfer Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Yna gweithio'n llawrydd i gyrrff cyhoeddus a phreifat, prifysgolion yng Nghymru ac Iwerddon, Senedd Cymru, Tŷ'r Cyffredin.

### O ble rydych chi'n dod? Ble rydych chi'n byw?

O Bwllheli ac yn byw yng Nghaernarfon.

### Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?

Roedd Ysgol Ramadeg Pwllheli yn ... ysgol ramadeg, a phrifysgolion a dinasoedd Caerdydd a Bangor yn addysg eang!

### Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwy arnoch chi?

Fy nheulu ac, yn gynnar, fy mrawd agosaf Geraint. Cafodd Ger ddamwain car erchyll ar ddechrau ei yrfa ond bu fyw tan yn 70 oed, gan ymateb i faich ei anabledig ydag ysbryd positif di-ildio, caredigrwydd ac ymrwymiad i'r pethau sy'n cyfri.

Fy ngwraig, Myfanwy, ddaru fy mherswadio i orffen y nofel o'r diwedd.

### Pam sgrifennu'r nofel?

Ysbrydoliaeth, mwynhad a sialens, ac awydd i drafod bywydau pobl fy mro a'r isgerrynt gwleidyddol ar adeg allweddol o foderneiddio pellach.

Roedd sylw mewn nofelau i bobl y diwydiant llechi, yn gymdeithasol ac yn seicoegol, ond fawr ddim sylw, hyd y gwn i, i'r cyd-destun gwleidyddol nac i'r diwydiant ithfaen.

Ac roedd ysgrifennu nofel yn newid o ysgrifennu areithiau, cwestiynau, adroddiadau di-ben-draw a'r holl waith achos.

### Gan fod hon yn nofel hanesyddol, faint o ymchwil oedd angen?

Ffluglen/hanes dychmygol/hanes amgen ydy'r nofel ond mae hanes o hyd yn dylanwadu ar heddiw.

Roedd fy rhieni'n ifanc yn ystod y tridegau a'r Ail Ryfel Byd, ac yn trafod y

cyfnod yn rheolaidd. Roedd fy nhaid John Williams, 'John yr Iwnion,' yn gweithio yn chwareli Nant Gwrtheyrn.

Hefyd cyhoeddwyd cyfoeth o lyfrau a phamffledi poblogaidd o atgofion lleol am hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf, gan gynnwys rhai am y diwydiant ithfaen. Llên gwerin, yn ddi-nod gan rai ond yn drysor i mi.

Mae sylw cynyddol i ecoleg ac archeoleg Cymru e.e. yn ddiweddar, *Tir* gan Carwyn Graves a *Hidden History in the Welsh Mountains* gan Richard Hayman, ac mae Rhys Mwyn yn gwneud gwaith gwych yn codi ymwybyddiaeth.

### Beth oedd eich ymateb pan gytunodd Gwasg y Lolfa i'w chyhoeddi? Syndod.

### Beth yw'r thema?

Ymateb pobl leol i agwedd benodol ar foderneiddio, diboblogi a'r bygythiad i'n hiaith, troeon cariad ynghyd ac ystrywiau, difaterwch ac ymryson mewnol swyddogol a hyn i gyd yng nghysgod brwydr yr Ysgol Fomio a'r rhyfel oedd yn agosáu. A'r cwestiwn yn y nofel ydy sut ydan ni'n dod i delerau â moderneiddio, hynny ydy, sut ydan ni'n ymddwyn ac yn ymateb i newid yn y byd? Ydan ni'n ei wrthod o neu ydan ni'n ei lyncu o'n gyfan i gael hyn a hyn o swyddi?

### Ydych chi'n cynllunio plot cyn ysgrifennu?

Ydw, yn fras, ond mae'r cymeriadau'n beryg o ddwyn yr awenau. Dywedodd Helmut von Moltke, milwr Almaeneg o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg: 'Does yr un cynllun brwydr yn goroesi'r cyffyrddiad cyntaf gyda'r gelyn.'

### Beth sy bwysicach? Cymeriad neu blot?

Mae plot heb gymeriadau'n ddiflas ac yn arwynebol, a chymeriadau heb blot wedi mynd yn ystrydeb.

### Beth sy'n gwneud stori dda?

Cymeriadau llawn, digwyddiadau credadwy, a rhyw hud a lledrith wedi eu taenu ar ben hynny gan yr awdur.

### Pa mor bwysig yw iaith rywiog a thafodiaith?


Mae'n gyfrwng ac yn gynnwys. Yn fyw nac addurn ond ddim yn hanfodol.

### Pa mor bwysig yw hiwmor?

Yn bwysig ond yn anodd. Roeddwn i'n ysgrifennu ambell bwt dychanol i raglen deledu yn y nawdegau. Roedd pob gair yn gorfod talu am ei le ac roedd angen sicrhau nad oedd pob gair yn difetha'r cyfan.

### Oedd neu oes gennych chi rwtin sgrifennu?

Nac oedd. Ysgrifennais i'r rhan fwy a'r nofel ar drên i Lundain ac yn ôl, ar fy nglin yn Siambr Tŷ'r Cyffedin yn disgwyl cael fy ngalw i siarad, yn Llyfrgell y Tŷ a'r stydi adra yn hwyr yn y nos. Ond



bellach wedi ymdeol cawn weld.

### Beth yw eich barn am stad y nofel yng Nghymru?

Mae'n gyfnod addawol iawn heblaw am ddiffygion cefnogaeth swyddogol i'r gweisg. Rwy'n darllen *Anfarwol* Peredur Glyn ar hyn o bryd.

### Pwy yw eich hoff awdur?

#### Pam?

Yn gynnar, darllenais i lawer iawn o waith George Orwell. Hefyd colofnau James Cameron a cholofn wleidyddol a doniol y Tori Julian Critchley, a hynny'n dylanwadu ar arddull fy nghlofn a'm blog fy hun, 'Y Tŷ Mawr o'r Tu Mewn'.

Roedd gwaith fy nghyfoedion fel Meg Elis ac Eleri Llewelyn Morris yn ysbrydoli, a Twm Miall wedi cyhoeddi. Doedd gen i byth yr amser i ysgrifennu. Fel arall, Gogol, Bulgakov, Graham Greene, Kurt Vonnegut a llu o rai eraill, a phopeth Cymraeg o Ellis Wynne, Caradog Prichard i Wil Sam, Angharad Tomos ac yn y blaen.

Pam? Straeon da efo llawer yn llechu rhwng y llinellau.

### Pa gyngor fydddech chi'n rhoi i awdur newydd?

Ysgrifennu ac ailysgrifennu. Peidio meddwl gormod am safon ar y cychwyn (aeth llawer iawn o fy ymdrechion i fyfyr sinne). Mynd i'r arfer a rhyddhau'r awen sy'n bwysig. A darllen. Dwi'n darllen beth bynnag sydd o fy mlaen i. Yn blentyn, byddwn i'n darllen cefn y botel sôs ar y bwrdd bwyd! (Sôs du yn ein tŷ ni, gyda llaw, nid sôs brown)

### Beth sy' ar y gweill?

Golygu straeon byrion hud a lledrith ysgrifennais i fy mhlant. Ar yr un pryd yn gweithio ar nofel iasoer wleidyddol wedi ei gosod yng Nghymru, Llundain a'r Balcan, yn seiliedig ar rai o fy mhrofiadau fel AS.

### Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd

Cafodd Enlli, fy merch ieuengaf, ei geni ar Ragfyr 24. Y cinio Nadolig brys y flwyddyn honno i Myfanwy, Owain a minnau oedd ffa pob ar dost – pryd gorau fy mywyd!

Fel arall, pethau syml. Bara cartra wedi ei dostio ac efo menynd hallt, tew. Uwd ar fore oer.

Yn yr haf, tafelli o domatos perffaith, ciwbiau o gaws Llŷn a bara echdoe, olew olewydd crai a halen a phupur du. Eu gadael i fwydo am ryw ddeng munud cyn eu bwyta!

### Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?

Pa amser hamdden fyddai hynny tybed?

### Dolen Gwales:

<https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781800995536&tsid=3#top>

*Ceiri*, Gwasg y Lolfa, £10.99

## EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:  
Geraint Rees

### Llongyfarchiadau'r mis i

Eleri Roberts, merch Bethan ac Alun, Parc Nant Celyn ar ei dyweddian yn ystod y mis diwethaf i Owen McConochie o ardal Llambod. Pob dymuniad da iddyn nhw wrth gynllunio'r cyfnod nesaf.



Llongyfarchiadau hefyd i Dean Porter o Barc Nant Celyn ar ennill yr ail wobwr yng Nghystadlaeth Ironman Leeds. Bydd Dean yn teithio nesaf i Nice yn Ffrainc i gystadlu ym Mhencampwriaethau'r Byd. Pob dymuniad da iddo.



Llongyfarchiadau i Huw Griffiths, Parc Nant Celyn ar ennill gwobr goffa yr Athro Gwyn Thomas 2025 a gyflwynwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am y traethawd estenedig gorau yn maes y Gymraeg fel pwnc academiaidd. Cyflwynwyd y wobwr iddo yn Eisteddfod Wrecsam.



### Dymuno'n dda

Dymunwn yn dda i Varion Gapper sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Hefyd i Carey Williams sydd yn gwella wedi anhap diweddar.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda John a Pat Edmunds, Penywaun ar golli chwaer John yn ddiweddar.

Un o barau hŷn y pentref yw Ray a Joan Wyson, Ffordd y Capel fu'n byw yma ers plentynod Ray. Daeth y newyddion trist yn y dyddiau diwethaf fod Joan wedi marw wedi cyfnod o salwch.

### Nofel ddiweddar David John, Efail Isaf

Mae David John, mab Carol ac Huw John Heol Iscoed, cyn-ddisgybl yn ysgolion Garth Olwg a Llanhari, erbyn hyn yn cael ei gydnabod fel un o nofelwyr storïau ysbwyr gorau'r byd. Cyhoeddwyd ei nofel ddiweddaraf, RED STAR DOWN dan yr enw D B John. Yn dilyn llwyddiant ei nofel "Star of the North" bu disgwyl mawr am hon, ac mae'r adolygiadau ar draws y byd wedi bod yn ysgubol. Heb fod eisiau difetha'r thril yn y thriller, mae hi'n nofel sydd yn seiliedig ar y tensiynau rhwng Gogledd Korea, y byd gorllewinol a Rwsia. Mae hi'n amlygu'r tensiynau rhwng gwledydd, natur bregus ein systemau gwleidyddol a chreulondeb ambell wleidydd. Rwy'n siŵr y gwnaiff hon ffilm Hollywood ysgubol. Llongyfarchiadau i David.



### Capel Tabernacl

Bu'n gyfnod prysur yn y Tabernacl.

Ar ddechrau Medi cynhaliwyd trip i rai o blant yr Ysgol Sul. Y bwriad oedd gemau ar brynghawn Sul heulog ar draeth Porthcawl, ond daeth Morus y Gwynt ac Ifan y Glaw i amharu ar y cynlluniau. Felly prynghawn yn Techniquet ac hufen iâ Cadwalladers oedd yr opsiwn gorau.



### Lledaenu'r Neges

Cyhoeddwyd hanes gwaith cymunedol y Tabernacl yn rhifyn yr Hydref o Y Wawr. Diolch i Glenys, Rhian, Carys,

## TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:  
Helen Prosser  
prosserh@btinternet.com

### Ar Ben y Byd

Mae'n hyfryd cael siarad Cymraeg yng nghaffi *Ar Ben y Byd* yn y Stryd Fawr yn Nhonyrefail. Mae'r Grŵp Sgwrsio bob yn ail ddydd Mawrth am 1pm yn mynd o nerth i nerth. Bob nos Iau mae gwersi ukulele dwyieithog. Rhowch wybod os ydych chi eisiau ymuno â ni.



Sylvia ac Oli am eu gwaith graenus. Hefyd diolchwyd i'r criw gan Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Merched Y Wawr.

### Suliau'r Tabernacl:

**Hydref 11 y bore, ond am y trydydd Sul**  
5: Iwan Rowlands a Dyfrig Rees  
12: Lowri Roberts: Sul Diolchgarwch gyda chinio i ddilyn  
19: Prynghawn teuluol: Beth NASA? Gydag ymwelydd o dîm y gofod. 3.30  
26: Edwyn Evans  
**Tachwedd**  
2: Geraint Rees  
9: Aled Edwards  
16: Prynghawn teuluol am 4 o'r gloch, Côr Caerdydd



# PONTYPRIDD

## Gohebydd y Mis - Margaret Francis

### Dathlu

Bu teulu'r Ebbsworths yn dathlu carreg filltir arwyddocaol ym Mis Medi, sef penblwydd priodas aur Margaret a Derick, Fronheuolg, Graigwen. Priodwyd y ddau yn Eglwys Sant Marc, Maesycod ar Fedi 4ydd 1965, i'w ddilyn gyda brewcwast priodas arbennig yng Nghaffi Princess, Pontypridd.

Llongyfarchiadau gwresog i'r ddau ohonoch.



### Siaradwyr Newydd .Amgueddfa Pontypridd....

Mae'r sesiynau dysgu Cymraeg wedi ail ddechrau yn yr Amgueddfa ar fore Dydd Iau.

Hoffem longyfarch un o'r dysgwyr sef Dai Pitman o'r Rhondda Fach a fynychodd gwrs preswyl yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn yn ddiweddar. Mae Dai yn mwynhau defnyddio y Gymraeg ar bob achlysur. Mwynhaodd gwrdd â dysgwyr eraill a defnyddio'i Gymraeg gyda phobl ardal y Bala yn y dafarn leol. Adre ym Mhontypridd mae e'n hoffi mynd i Glwb y Bont, a mynychu'r sesiynau Cymraeg yn yr Amgueddfa. Mae Dai yn esiampl gwych o ddysgwr brwd sydd yn cymryd pob mantais o ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob sefyllfa.

Croeso i siaradwyr newydd o bob safon i ymuno.

Cofiwch hefyd ymuno gyda'r dysgwyr yng Nghlwb. Y Bont ar nos Iau cyntaf bob mis o 7-9.

### Grant

Mae Amgueddfa Pontypridd wedi derbyn dau grant gan Lywodraeth Cymru i

ymgyrdd â phrosiectau adnewyddu mawr ar y safle.

Bydd yr amgueddfa, sy'n cael ei reoli gan Gyngor Pontypridd, yn derbyn cyfanswm o £300,000 mewn cyllid sy'n ynghlwm wrth raglen Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant Llywodraeth Cymru. Bydd grant o £150,000 yn galluogi adfer, cadwraeth a digideiddio gwrthrych mwyaf yr amgueddfa, sef organ bib o 1910. Mae'r organ mewn cyflwr gwael iawn ar hyn o bryd ac yn anaddas i'w chwarae. Bydd y grant yn galluogi i bob rhan o'r organ gael ei hatgyweirio ac yn cyflwyno rheolydd digidol fel y gellir recordio datganiad a'i chwarae nôl i ymwelwyr heb i'w organydd fod yn bresennol.

Dyfarwyd grant pellach i atgyweirio to y siop a'r ystafelloedd cymunedol sy'n gollwng. Bydd y gwaith yn dechrau yr hydref hwn gyda'r nod o adfer yr organ yn llawn erbyn Mawrth 1af 2026.

### Merched y Wawr

Y siaradwr gwâdd yng nghyfarfod cyntaf y Gangen oedd Garry Owen. Cafwyd noson arbennig yn ei gwmmi. Soniodd yn bennaf am ei brofiadau fel newyddiadurwr ac am newyddion a adawodd ei farc arno. Cafon y fraint o weld yr ochr dwys a doniol o'i bersonoliaeth. Braff oedd croesawu aelod newydd i'n plith hefyd. Dechrau gwych i'r tymor!



Mis nesa croesawn Huw Blainey i'n diddanu. Croeso cynnes i aelodau newydd.

### Sesiynau Canu

Mae Antur Owen Hicks yn cynnal sesiynau canu i siaradwyr newydd unwaith y mis yng Nghlwb y Bont ar fore dydd Sadwrn am 11:00am. Mae'r sesiynau yma wedi eu hariannu gan Gyngor y Celfyddydau i ddatblygu cyfleoedd i siaradwyr newydd.

### Anrhydedd

Llongyfarchiadau i Wil Morus Jones! Yn ystod Cynhadledd Flynnyddol Plaid Cymru, a gynhelir eleni yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe, fe fydd cyfraniad degawdau o waith caled gan Wil yn caei ei gydnabod.



### Priodas

Llongyfarchiadau i Beca Caffery a Carrie Roberts ar eu priodas ddydd Sadwrn cyntaf Mis Medi ym Mhontypridd. Cynhaliwyd y wledd yng nghwmni ffrindiau a theulu yn adeilad YMA yn y dre. Mae Beca; Carrie a Talwyn bach wedi ymargrefu yn y Comin, Pontypridd. Dymuniadau gorau iddynt!

### Priodas

Ar y 26ain o Orffennaf, dathlodd Jac Jenkins a Caitlin Gapper eu priodas yn Grug Glas, yng nghanol Tyddewi. Wedi'u hamgylchynu gan deulu a ffrindiau.



### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Rhuanedd Richards a'r teulu ar gollu ei thad Philip Richards yn 79 mlwydd oed. Roedd Phil yn Gymro balch ac yn ymgyrchydd brwd, gan sefyll mewn etholiadau ar sawl achlysur a churo drysau dros lawer o wleidyddion eraill. Bu'n far-gyfreithiwr a barnwr, yn areithiwr gwych ym maes y gyfraith ac mewn gwleidyddiaeth.

### CLWB Y BONT

#### Adnewyddu aelodaeth

Mae'n amser adnewyddu aelodaeth y Clwb. Dyma ffordd o gefnogi'r Clwb. £60 yw'r pris i'r rhai sy'n gweithio. Mae modd talu £5 y mis - llai na 2 gwpaned o goffi! £30 yw'r pris i'r digyflog a phensiynwyr.

### Lawnsio llyfr gan awdures newydd lleol.

Pnawn Dydd Sadwrn Hydref 10fed am 3 o'r gloch yng Nghlwb y Bont fe fydd Lois Roberts yn siarad am ei chyfrol 'Cymoedd' sef casgliad o straeon byrion.

# PONTYPRIDD

## Parhad

Dyma ddeuddeg stori am ddeuddeg merch a deuddeg lle yn y Cymoedd. Mae Lois yn byw yn Nelson gyda ei gŵr Llion a'i meibion Joseff a Bedwyr. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Rhydygrug ac Ysgol Gyfun Rhydywaun. Enillodd Lois ysgoloriaeth Emyr Feddyg yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. Mae'r gyfrol hefyd yn cynnwys lluniau gan yr artist Becky Davies o Graigwen. Cyhoeddwy'r gyfrol yw Gwasg y Bwthyn. Fe fydd eitemau gan Parti'r Efail a Gwawr Loader yn ystod y digwyddiad.

### Cwis

Mae'r cwisfeistr Aled Illtud yn edrych ymlaen i groesawu pawb i fwynhau nosweithiau o'r Cwis misol ar nos Iau olaf bob mis (fe ddaeth 9 tîm yn Mis Awst). I ddechrau am 8 o'r gloch.£3 y pen.

### Gigs Hydref/Tachwedd

Dydd Sul Hydref 19eg - Eve Goodman a Jera

Dydd Gwener Hydref 10fed - Gig Ieuenctid - Dros dro, Penbleth, a Trydanol ( croeso i griw y 6ed)

Nos Sadwrn Tachwedd 8fed - Mojo

Nos Wener Tachwedd 28ain - Rhi Jorj a'r Band

Mae'r uchod i gyd yn lansio eu halbwns newydd.

### Clwb Llyfrau

Dewch i Lyfrgell Pontypridd ar fore Mercher Hydref 15fed am 10 o'r gloch i drafod llyfrau Cymraeg a Saesneg. Rhys Dylan yw'r awdur poblogaidd ar hyn o bryd.

### Capel Rhondda (adroddiad Rhian Hopkins)

Ar ôl cyfnod cyffrous a galwadau gan y cyfryngau bob dydd yn ystod ail hanner mis Gorffennaf, roedd Awst yn gymharol dawel yn hanes ymgyrch #achubcapelrhondda.

Mae'r Crowdfunding yn fyw o hyd ac erbyn hyn, rydyn ni wedi codi ychydig dros £70K, bron i £5K i ffwrdd o'n targed ymestynnol. Mae'r negeseuon o gymorth rydyn ni wedi eu derbyn gan bobl leol a phobl o bedwar ban byd wir yn codi calon.

Mae cwmni o'r Rhondda wedi gwneud arolygiad o'r capel am ddim fel rhodd i'r ymgyrch. Mae haelioni pobl wedi ein syfrdanu. Rydyn ni mor ddiolchgar am bob cefnogaeth.

Yn dilyn yr adborth, rydyn ni wedi cael adborth llafar ac yn nawr yn aros am yr adborth yr oedden ni'n disgwyl, codi digon o arian i brynu'r capel oedd y cam cyntaf. Bydd angen llawer mwy o arian i wneud y gwaith trwsio, er mwyn ail agor

drysau Capel Rhondda i'r gymuned ac ymwelwyr.

Rydyn wrthi yn sefydlu busnes cymunedol er mwyn gweithredu Capel y Rhondda. Mae gennym griw o bobl sydd yn foddol bod yn gyfarwyddwyr, ond mae dewis y strwythur cyfreithiol mwyaf addas yn benderfyniad mawr, felly er gwaethaf llawer o gyngor, mae'r trafodaethau yn parhau.....

Os hoffech chi fod yn rhan o'r prosiect wrth wrth i ni symud ymlaen, cysylltwch. Cofiwch ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn clywed y datblygiadau diweddaraf.

@capelrhondda

Menna Lewis fydd yn gyfrifol am newyddion Mis Hydref.



### Gŵyl Cofio Morfydd Llwyd Owen

Cynhelir gweithgareddau i gofio am Morfydd Owen o Ddydd Gwener Hydref 10fed am benwythnos I ddathlu bywyd, cerddoriaeth a'i hetifeddiaeth. Dyma yn fras r o'r digwyddiadau a gynhelir.

#### DYDD GWENER

Llwybr gorchudd lampau. 09:00 - 18:00  
USW/PDC Arddangosfa Ffasiwn. 09:30 - 16:30

Arddangosfa Cymuned Gelf Morfydd 0900 - 19:00

Gorymdaith gorchudd lampau 13:30 - 16:00

Noson yng nghwmni Amy Wadge. 18:30-21:00

#### DYDD SADWRN

Arddangosfa Cymuned Geif Morfydd. 09:00 - 13:00

Gorymdaith gorchudd lampau. 09:00 - 18:00

USW/PDC Arddangosfa Ffasiwn. 09:30 - 18:30

Sesiwn Agored. 10:00 - 11:00

Gweithdy Celf Morfydd. 10:30-11:30

Cofio Morfydd.(Amgueddfa) 10:30-11:30

Cofio am 'Fy ffrind Morfydd a'i hetiau'. 11:30-12:30

Key Create ALN. 11:30-12:30

Sgwad 'Sgrifennu. 12:00-2:00

Corau yn ardal y ffynnon, Stryd Taf. 12:00-15:00

Sesiwn ddrymio. 12:45-13:30

Cyngerdd gan y grŵp Vri.(Amgueddfa) 1.30 - 2.30

Noson gydag Amy Wadge 18:30-21:00

#### DYDD SUL

Sesiwn Ysgolion 10:00-12:00

USW/PDC. Arddangosfa Ffasiwn. 10:00-16:00

Celf a Chreffft. 12:00-14:00

Taith Gerdded. 12:00-14:00

Gymanfa Ganu. 15:30-18:30

Noson gyda Amy Wadge. 18:30-21:30

Ewch i'r wefan am wybodaeth pellach am leoliadau'r gwahanol weithgaredd - www.morfydd-owen

## Am Dro


Llongyfarchiadau i Kai Easter ddaeth yn gydradd gyntaf yn y gystadleuaeth *Am Dro* ar S4C. Mewn tywydd ardderchog bu'n tywys ei gyd-gystaddeuwy'r o amgylch



Pontypridd yn cynnwys Coedwig Craig yr Hesg, Parc Ynysangharad a Cerrig yr Orsedd ar y Comin. Hefyd bu'n dangos ei ddawn yn dawnsio break-dance ac yntau'n bencampwr o fri.



## Llyfr Newydd Y Parch Aled Edwards



Cyfról ar gyfer ein cofnod yw hon. Llyfr i godi rhywfaint ar y galon mewn dyddiau heriol i Gymru a'n byd. Trafodir nifer o heriau diweddar yn y gwaith hwn, sy'n cyffwrdd â ffydd, cenedl a'n byd. Datgelir sut y bu'r Gymru ddatganoledig gyfoes yn arloesol yn nhermau croesawu ffoaduriaid, cynnal hawliau dynol ac ymdrechu i ymdrin â heriau amgylcheddol.

Cyhoeddwy'r: Cyhoeddiadau'r Gair  
Pris: £9.99

## Ddathlu Pen-blwydd Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Bydd cyfarfodydd misol Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn ail-ddechrau ar Hydref 6ed, pan ddaw Nic Parry atom i adrodd ychydig o'i hanes. Mae'r amseru'n berffaith gan fod y siaradwr gwadd yn cyfnewid llys barn am Lys yr Eisteddfod eleni, ac yntau newydd gael ei ddirchafu'n Llywydd y Llys. Mae'n gyfnod arwyddocaol i'n llywydd ninnau hefyd, gan mai Carys Tudor Williams fydd y wraig gyntaf i lenwi'r swydd hon yn holl hanes y Cylch Cinio a sefydlwyd yn 1951.



Carys Tudor Williams,  
Llywydd y Cylch Cinio

Wrth ddyddymuno'n dda i Carys a fydd un ein tywys drwy'r tymor i ddathlu tri chwarter canrif o fodolaeth, diolchwn i Wyn Rees am ei gyfnod llewyrchus fel llywydd y llynedd. Y bwriad yw cynnal noson arbennig i nodi achlysur hanesyddol y pen-blwydd ym mis Mawrth 2026, a hynny dan arweiniad Keith Bush. Y siaradwyr eraill yn ystod y tymor sydd o'n blaenau yw Sara Huws, y ddarlledwraig a'r hanesydd; Rhodri Llywelyn, y newyddiadurwr a'r cyflwynydd newyddion; Rachel Evans, y cynhyrchydd teledu; a'r Athro Emeritws Gareth Ffowc Roberts, yr awdur a'r mathemategydd. Fel sy'n arferol erbyn hyn, bydd naws gerddorol i'n dathliadau Nadolig pan ddaw Huw Foulkes a Ruth Roberts atom i'n diddanu.

Beth am ymuno â ni ar nos Lun gyntaf y mis yng Ngwesty'r New House? Byddwn yn dod at ein gilydd am 7:00 o'r gloch ar gyfer 7:30 ac yn mwynhau pryd o fwyd dau gwrs cyn eistedd yn ôl i wrando ar y gwestai. Y pris yw £33 y pen, ac mae'r swm yn cynnwys cyfraniad a rennir ar ddiwydd y tymor rhwng achosion Cymraeg teilwng yn y cylch. Croeso i bawb ymuno â ni - does dim rhaid ymrwmo i ddod i bob achlysur, ond mae'n ofynnol rhoi gwybod mewn

## Capel y Bont

Ers cau Eglwys Sardis yn 2016 nid oes lle addoli Cymraeg wedi bod ym Mhontypridd. Mewn cam cyffrous mae hyn yn cael ei gywiro gyda lansiad Capel y Bont ar ddydd Sul yr 21ain o Fedi 2025. Yn cwrdd mewn hen adeilad Eglwys Unedig ar gornel Ffordd Gelliwastad a Lôn Penuel, yng nghanol Pontypridd, bydd pawb yn derbyn croeso cynnes am 4 y.p. bob dydd Sul i wasanaeth amlicithog sy'n gynhwysol ac yn rhyngweithiol i ADY. Byddwn yn eistedd o amgylch byrddau sy'n llawn gweithgareddau rhyngweithiol i ADY a phobl greadigol eu mwynhau, tra bod y gwasanaeth hygyrch yn dod â chymdeithas gynnes a dangos llawenydd efengyl Iesu. Yn ystod yr wythnos byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r Beibl trwy astudiaethau Beiblaidd a grwpiau ieuentid. Rydym yn falch o gyhoeddi Clwb Clonc rheolaidd ar fore Mercher, ac unwaith y mis nosweithiau gemau, gyda llawer mwy i ddod.


Daw'r fenter newydd hon gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, ac ni fyddai'n bosibl heb eu cefnogaeth. Ochr yn ochr â'r Eglwys, ac mewn partneriaeth â nifer o elusennau sy'n cefnogi teuluoedd a phobl ifanc yn RhCT, rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddod yn Hwb Cymorth Aml-asiantaeth i deuluoedd ag Anghenion Ymddygiadol ac Ychwanegol. Mae'r trafodaethau yn eu camau cynnar, a bydd mwy o newyddion ar hyn yn fuan.

Mae calon y gwaith newydd hwn yn dod o deuluoedd Gristnogol lleol sydd am weld yr efengyl yn cael ei gyflwyno yn ein hiaith ein hunain yn ein tref. Rydym hefyd yn deall bod llawer mewn cartrefi â galluoedd cymysg yn y Gymraeg ac ar wahanol gamau dysgu. Felly, rydym yn cynnig ein holl weithgareddau yn ddwyieithog, naill ai trwy gyfieithu neu gyflwyniadau aml iaith.

I ychwanegu at hyn, rydym yn deuluoedd sy'n byw gydag anghenion ychwanegol ein hunain, felly gyda

da bryd i Paul Morgan, yr Ysgrifennydd, os bwriedwch ddod. Anfonwch air ato, a chewch wybodaeth am y fwydlen a'r modd o dalu am noson hwyliog a chynnes. Ei gyfeiriad e-bost yw [cylch.cinio@gmail.com](mailto:cylch.cinio@gmail.com). Medrwnch gael rhagor o wybodaeth hefyd gan Ann Williams, y Cyd-ysgrifennydd, Bethan Whittall, y Trysorydd, neu Emlyn Davies, yr Is-lywydd. Ers ei sefydlu, bu'r Cylch Cinio'n denu aelodau o'r ardal oedd y tu hwnt i'r ddinas ei hun, ac mae'n gyfle gwych i gael sgwrs gyda chyfeillion amrywiol a gwneud ffrindiau newydd. Mentrwch atom - byddwn yn falch o'ch gweld!

E.D.



dealltwriaeth am yr anawsterau i gael mynediad at yr hyn y gallai llawer ei gymryd yn ganiataol, fel eistedd trwy wasanaeth Capel.

Bwriad fformat ein gwasanaethau fydd i pob un addoli gyda'u gilydd fel teulu, does dim angen gwahanu oherwydd oedran, sŵn neu gallu.

Byddwn yn gweithio'n galed ac yn gwneud ein gorau, tra'n debygol o wneud camgymeriadau ar hyd y ffordd, byddwn yn edrych i twtio a gwella wrth i ni ddatblygu. Rydym yn edrych mlaen i weld pwy fydd yn ymuno gyda ni ar y siwrne gyffrous yma, ac i weld beth fydd Duw yn darparu ar ein cyfer.

Felly byddwn yn cwrdd am 4yp bob dydd Sul, Heol Gelliwastad Pontypridd, chwiliwch am ein baner 'Capel y Bont' ar ochr y Capel. Mae parcio gwych ym maes parcio Gas Lane ac yn y Goods Yard tu ôl y safle bws.

Am y wybodaeth ddiweddaraf, gweler ein gwefan [www.capelybont.cymru](http://www.capelybont.cymru).

oes rhywun wedi gweld  
oes rhywun wedi gweld  
y pernod king? gan mari emlyn

rhodri evan  
lilian williams

Clwb y Bont, Pontypridd  
Nos Iau | 23-10-25 | 7:30  
Tocynnau:  
<http://www.ticketsource.com/clwb-y-bont>

canllaw oed 12+  
(anball i 18g)

## GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:  
Dawn Walters

### Haf bythgofiadwy i'r chwiriwydd Walters

#### Esmay Walters ac Eve Harris dawns Lladin dan 16

Pencampwyr Prydain  
Enillwyr y Gynghrair  
Cenedlaethol  
Bu'r ddwy yn cystadlu yn y  
categori hon am 4 mlynedd ers  
iddynt fod yn 11 a 12 heb gollu  
yr un gystadleuaeth. Tipyn o  
gamp yn y byd dawns.

Ond dyma'r un sy'n cyfri  
mwyaf sef Pencampwyr  
Cystadleuaeth Agored Cymru  
Celtic Manor ar Medi 21.



#### Verity Walters ac Eve Bailey dawns Lladin a Ballroom dan 12

Pencampwyr Prydain  
Enillwyr y wobwr mawreddog Le  
Classique am eu llwyddiannau yn  
y byd dawns.

Mae'r ddwy yn symud i'r  
oedran uwch yn fuan ac yn  
brysur yn ymarfer yn eu "Sodlau  
Uchel."



#### Cyngor

**Cymunedol**  
Cynhaliwyd Ras y  
Goedwig flynyddol  
ym mis Awst.  
Roedd yn ddiwrnod  
llwyddiannus gyda  
105 o redwyr.



## Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Rhanbarth Gwent 2027

Annwyl ddarlennwyr,

Mae'n siŵr i nifer o chi fwynhau'r arlwy a'r bwrlwm o Barc  
Margam yn ystod hanner tymor mis Mai, ac hel atgofion am yr  
wythnos wych a gafwyd yn Rhondda Cynon Taf ddechrau mis  
Awst 2024.

Wel, mae Eisteddfod Mr Urdd yn parhau i deithio, a bydd Tŷ  
Tredegar yng Nghasnewydd yn croesawu Cymru gyfan ym mis  
Mai 2027.

Wrth groesawu Eisteddfod i ardal, daw'r her – codi arian.

Mae siroedd Caerffili, Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent a  
Thorfaen yn ffurfio Rhanbarth Gwent, ac er bod Pwyllgor  
Gwaith wedi ei sefydlu (dan Gadeiryddiaeth Elin Maher a 5 is-  
Gadeirydd i gynrychioli pob sir) mae hi wedi dod i'r amlwg yn  
fuan iawn nad yw'r gefnogaeth o'r manau 'traddodiadol' mor  
amlwg a chadarn.

Felly apêl sydd gen i, i ofyn a fyddech chi'n fodlon ystyried  
cefnogi'r gronfa leol trwy gyfrannu £5 y mis (£1.25 yr wythnos)  
gyda rhodd gymorth drwy 'Just Giving' mae'r Urdd wedi  
sefydlu. Mae croeso i chi gyfrannu mwy wrth gwrs!

Mae modd gwneud taliad misol drwy'r wefan. Allwch chi  
nodi pa Sir hoffech chi 'gefnogi' – Caerffili, Mynwy,  
Casnewydd, Blaenau Gwent neu Torfaen – ond i'r un pot o  
arian mae'r arian yn mynd ar ddiwedd y dydd!

Mae wir angen i ni ymestyn y rhwyd mor bell a phosibl er  
mwyn rhoi'r cyfle i drigolion y rhanbarth i profi'r wythnos orau  
erioed fel brofodd Pontypridd fis Awst diwethaf. Y gobaith  
wedyn yw y bydd yn rhoi'r hyder i'r boblogaeth glywed a  
mwynhau'r Gymraeg ac yn rhoi'r hwb i bobl ddefnyddio'r  
Gymraeg sydd ganddynt.

Os ydych chi'n teimlo gallwch chi gefnogi'r ymgyrch, mae  
modd i chi ddilyn y linc yma -  
<https://www.justgiving.com/campaign/eisteddfodyrurdd2027>  
neu daliwch eich ffon uwchben y cōd QR yn y poster fydd yn  
mynd a chi yn syth i'r wefan.

Diolch yn fawr am eich amser a'ch cefnogaeth!

Osian Rowlands

Is-Gadeirydd ar ran Sir Caerffili, Eisteddfod yr Urdd Bro'r  
Wenynen, Rhanbarth Gwent 2027



**RHO HEDDIW,  
I FEITHRIN EU HYFORY!  
CEFNOGA EISTEDDFOD  
YR URDD GWENT 2027  
MIS WRTH FIS.**



Pwyllgor  
Apêl  
Caerffili



**RYDYN NI'N CHWILIO  
AM FFRINDIAU MISTAR  
URDD I GYFRANNU  
SWM YN FISOL.  
DILYNA'R DDOLEN I  
GOFRESTRU. DIOLCH!**

[https://www.justgiving.com/  
campaign/eisteddfodyrurdd2027](https://www.justgiving.com/campaign/eisteddfodyrurdd2027)

#### Capel Moriah

Bu farw Mrs Margaret Davies, aelod hynaf y capel, yn 92  
mlwydd oed, yn ddiweddar.

# LLANTRISANT PONTYCLUN Y GROESFAEN

Gohebydd y mis: Eluned Davies-Scott

## Tymor Newydd Merched Y Wawr, Cangen Tonysguboriau a'r ardal

Diolch i'r criw dewr fentrodd allan ar noson wlyb iawn i gyfarfod cyntaf o'r tymor newydd o'r gangen ym mis Medi. Cawsom amser i gymdeithasu eto eleni tra rhoi tro ar ateb cwestiynau cwis Glenys Griffiths. Mae ein 'cwis-feistress breswyl' wrth ei bodd yn paratoi cwis ar gyfer noson gyntaf ein tymor. Rhoddodd y cwestiynau amrywiol ymarfer da i'r cof gyda dyfalu dyddiadau rhai digwyddiadau arwyddocaol a manau geni pobl enwog o Gymru ymhlith yr heriau yn ei chwis.

Beth am ymuno â ni i ddatlu diwrnod Shwmae/Sumae ar 15fed Hydref am 7.00 yn Caffi50 Pontyclun? Rydym yn falch iawn fod Côr Dysgwyr y Cymoedd yn dod i'n difyr. Fel y gwyddoch, dyma'r côr enillodd gystadleuaeth Côr Y Dysgwyr yn eisteddfodau cenedlaethol Pontypridd a Wrecsam.



## Hoffech chi wneud eich rhan dros yr amgylchedd?

Beth am ymuno â Grŵp Amgylchedd Pont-y-clun a chael cyfle i gael awyr iach wrth helpu i warchod yr amgylchedd a dysgu mwy am ein hardal a bywyd gwyllt? Ynghyd â gwarchod llwybrau troed ar fin yr afon, mae'r gwirfoddolwyr yn trefnu casgliadau sbwriel (a throliau archfarchnadoedd!), teithiau cerdded a sesiynau fel noswaith gwyllo gwyfynod a helpa chwilod. Gallwch gael mwy o wybodaeth trwy eu tudalen Facebook.

## Llongyfarchiadau

Roedd gwyliau yn Gran Canaria ym mis Medi yn arbennig iawn i Bethan Donnelly a Jason Robinson, Llantrisant. Dyma lle a phryd y gwnaethon nhw ddyweddio. Mae Bethan yn ferch i Nia a Mike Donnelly Meisgyn ac yn wyres i Dilwen Davies. Mae Jason yn dod o Abercynon.



## Cyfle i Ymarfer eich Cymraeg

Os ydych yn gwybod am unrhyw un fyddai â diddordeb mewn cael cyfle i gwrdd ag eraill sy'n siaradwyr newydd cysylltwch â Sara Kingdon-Evans. Mae hi wedi cychwyn grŵp siarad sy'n cwrdd yn yr Ivor Arms Brynsadler ar nos Fawrth am 7o'r gloch. Mae 'na grŵp bach bywiog iawn yno yn mwynhau sgwrsio a chael hwyl. E-bost Sara yw [sara.ike@outlook.com](mailto:sara.ike@outlook.com) Mae'r dafarn wedi bod ar gau ar gyfer ei ailwampio yn ddiweddar; mae'n lle croesawgar gyda dwy o'r staff sy'n gweithio tu ôl y bar yn siarad Cymraeg.

## Gwellhad Buan

Ar ddechrau mis Awst, cafodd Eleri Huws, Meisgyn, driniaeth lawfeddygol ar ei hysgwydd yn Ysbyty Morgannwg. Braff gallu adrodd ei bod bellach yn gwella'n dda ac anfonwn ein dymuniadau gorau iddi hi.

## Apêl Ystafell Fyw

Mae'r Ystafell Fyw yn ganolfan adfer yn y gymuned sydd â dull "pob dibyniaeth" (E.e. gamblo, alcohol, rhyw, cyffuriau, anhwylder bwyta, ayyb) ac rydym yn croesawu unrhyw un sydd angen cymorth gam gymryd y cam cyntaf hwnnw tuag at adferiad neu sydd am barhau i wella. Mae hefyd yn darparu cyngor a chefnogaeth i aelodau'r teulu, partneriaid a ffrindiau sydd wedi cael eu heffeithio gan y dibyniaethau hyn.

Apêl genedlaethol yw hon i sicrhau bod y Stafell Fyw yn parhau i dyfu ac esblygu yn ei leoliad newydd o Hydref 2025 ymlaen.

Diolch yn fawr.

**MAE'R STAFELL FYW YN AIL-LEOLI I GARTREF NEWYDD ER MWYN DIOGELU'R GWASANAETH AR GYFER Y DYFODOL.**

**YDYCH CHI'N FODLON RHOI HELP LLAW PLÏS, I SICRHAU Y BYDD Y STAFELL FYW YN PARHAU I DDATBLYGU AC ESBLYGU?**

## PWRPAS Y STAFELL FYW

Pwrpas y Stafell Fyw yw cynnig cymorth a chwrsela i rai sy'n dioddef o bob math o ddibyniaethau, a thros y blynyddoedd mae cannoedd wedi adfer gan agor y drws iddynt i fywydau newydd, tu hwnt i'w holl freuddwydion.

Hydref 2025 bydd **Wynford Ellis Owen** a'i dim o gwrselwyr yn ail-sefydlu'r gwasanaeth mewn canolfan newydd, sef **Eglwys y Crwys** ar Richmond Road, Caerdydd. Y cyntaf, gobeithio o rwydwaith o ganolfannau tebyg ledled Cymru. Bydd y gwasanaeth hefyd yn dychwelyd at ei fam elusen, y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill (**Rhif Elusen 501658**) - yr elusen roddodd enedigaeth i'r Stafell Fyw nôl ym 2011.

## Y CAIS

Cais ydi hwn am un taliad o £25 i'r cyfrif canlynol, gan gynnwys eich enw, er mwyn sicrhau cyllid i sicrhau hirhoedledd y gwasanaeth pwysig hwn.

**ENW Y CYFRIF** CACE/CAOD

**RHIF Y CYFRIF** 54892675

**COD Y BANC** 230580

**MATH O GYFRIF** Busnes

Banc Metro.

AD / LIR CYMRU YN CYFELYWIO

YR OGWG

Adfeli

Noson Gyfa

**SHANE WILLIAMS**

£16

GYDA TEUAN RHYS A PHYLIP HARRIES

STWIDIO YR DLWG - PENTRE'R EGLWYS

HYDREF 9<sup>ED</sup> 2025 - 7:30PM

TOCYNNAU // RCT-THEATRES.CO.UK/YR-DLWG 03000 040 444

## Clwb Rygbi Pontypridd

### 'CANOLBWYNTIO AR Y GYNGHRAIR'

Pan gyhoeddwyd rhestr y gemau ar gyfer y tymor newydd, roedd yn amlwg fod gan Glwb Rygbi Pontypridd gychwyn heriol dros ben i'w hymgyrch, gyda dim ond un gêm gartref yn ystod y pum wythnos gyntaf. Yr ornest fawr ar y gorwel oedd rownd gyntaf Cwpan Cymru gyda Ponty yn gorfod teithio i wynebu Castell Nedd ar faes y Gnoll ar y 27ain o Fedi. Roedd pwysau ychwanegol ar hon gan mai Ponty oedd deiliaid y Cwpan, a enillwyd nôl ym mis Ebrill pan gurwyd Cross Keys yn y rownd derfynnol yn Stadiwm y Principality.

Siom aruthrol felly oedd i Ponty golli o 23 pwynt i 19 yn erbyn Castell Nedd, a cholli gafael ar y cwpan cenedlaethol mor gynnar yn y tymor. Roedd yr ornest yn un glos, yn gorfforol os nad yn glasur o rygbi agored, ac er ymdrechu'n galed allai Ponty ddim canfod y bylchau yn amddiffyn cadarn Castell Nedd i hawlio'r fuddugoliaeth holl bwysig.

Yn ôl yr ystrydeb gyfarwydd o fyd y chwaraeon, wedi colli yn y cwpan bydd Pontypridd o hyn ymlaen yn canolbwyntio ar y gynghrair. Ar ôl gorffen yn ail i Ferthyr yn Uwch-adran Admiral llynedd, yr amcan y tymor hwn fydd mynd un cam yn well a gorffen ar y brig. Yn hynny o beth roedd mis cyntaf y tymor newydd yn un digon llwyddiannus i Ponty, gyda thair buddugoliaeth, dwy o'r rheini gyda phwynt bonws ychwanegol.

Taith i Aberhonddu oedd yr her gyntaf i Bontypridd, gan ennill o 17 pwynt i 34, cyn curu Arberth o 35 pwynt i 12 yn yr unig gêm gartref gydol mis Medi. Oddi cartref yn Llangennech




Buddugoliaeth gartref yn erbyn Arberth

ddaeth y drydedd fuddugoliaeth, o 19 pwynt i 27 gan sicrhau fod Ponty ar frig yr Uwch-adran ar ddiwedd y mis.

Yn ôl prif hyfforddwr Ponty, Kristian Parker, mae carfan ifanc gyda nifer o wynebau newydd yn gorfod dysgu'n gyflym ac addasu i heriau'r Uwch-adran, ond y nôd yw cymryd un gêm ar y tro ac i fagu hyder o bob buddugoliaeth er mwyn bod o fewn cyrraedd i ennill tlws y gynghrair pan ddaw'r cyfle ddiwedd y tymor.

Am yr holl wybodaeth am gemau CR Pontypridd galwch mewn i wefan y clwb – [www.ponty.net](http://www.ponty.net) neu ar y safleoedd cymdeithasol @pontypridddfc





*Guto Davies*







# Le Llanast!

gan Yasmina Reza  
cyfieithiad: Gareth Miles

*Le Dieu du Carnage*


**Actorion**  
Siôn Emyr  
Gwenllian Higginson  
Carwyn Jones  
Manon Wilkinson  
Cyfarwyddo  
Betsan Llwyd

Canllaw oed 14+

**YMa, Pontypridd**

Llun | 24-11-25 | 7:30

Tocynnau: [wegottickets.com/event/669687](http://wegottickets.com/event/669687)








**Tŷ Dawns, Bae Caerdydd**

Gwener/ Sadwrn | 28-11-25/ 29-11-25 | 7:30

Tocynnau: Gwener | [wegottickets.com/event/669656](http://wegottickets.com/event/669656)

Sadwrn | [wegottickets.com/event/669661](http://wegottickets.com/event/669661)

# Côr Godre'r Garth

yn cyflwyno Sadwrn

## Meseia

29

Tachwedd 19:00

Noson o gerddoriaeth yn cynnwys detholiad o Meseia gan Handel yng nghwmni'r soprano **Jessica Robinson** i gyfeiliant **Cerddorfa Siambr y Meseia, Blaenwr Becci Goss**

Arweinydd Steffan Huw Watkins  
Cyfeilydd Branwen Evans

Capel y Bont  
Heol Gelliwastad  
Pontypridd  
CF37 2BW

Tocynnau o flaen llaw **£15** // Wrth y drws **£18** i oedolion neu **£10** i blant dan 18

<https://www.ticketsource.co.uk/cor-godrer-garth/t-ojnyoxr>



## Colofn Blasus a Iachus

Eluned Davies-Scott

### Bodlonrwydd bradychus?

Datganodd Tobias Venner, meddyg ac awdur meddygol o Loegr, yn 1620: "*many phantasticall people doe greatly delight to eat of the earthly excrescences calls Mushrooms. They are convenient for no season, age or temperament.*" A John Farley yn *The London Art of Cookery*, tua 160 mlynedd yn ddiweddarach, a'u galwodd yn "bodlonrwydd bradychus".

Yn hanesyddol, mae'r Prydeinwyr wedi bod yn amheus ynglŷn â madarch sy'n rhyfedd ac anfydol. Ar wahân i fadarch maes, roedd y rhan fwyaf yn cael eu diystyru fel "caws llyffant" gan fod y llyffant yn cael ei ystyried yn greadur gwenwynig. Mae nifer o fathau yn ymddangos hefyd mewn llên gwerin gydag enwau fel Ymenyn y Wrach, Sinsir y Bwgan, Torthau'r Tylwyth Teg a Ambarelo'r Bwgan yn adlewyrchu credoau mewn hud, dewiniaeth, a pherygl sy'n gysylltiedig â ffyngau.

Mae o leiaf 120,000 o rywogaethau o fadarch gyda thua 1,800 yn werth eu hystyried fel bwyd. Mae ganddynt harddwch rhyfedd, nid ydynt yn edrych fel dim byd arall ar y ddaear ac nid ydynt yn blanhigion nac yn anifail. Mae gen i angerdd dros dynnu lluniau ohonynt pan fyddaf allan yn y wlad (dyma rai ohonynt). Eleni mae digonedd ohonynt wedi bod yn tyfu o dan y coed yn ein gardd hefyd (ond nid wyf wedi gweld unrhyw dylwyth teg na choblynnod hyd yn hyn!).



Mae pob ffwng yn ewcariotau, sy'n golygu, fel planhigion ac anifeiliaid, bod gan eu celloedd niwclews lle mae DNA yn cael ei storio. Yn wahanol i



blanhigion, ni allant gynhyrchu eu hynni eu hunain trwy fotosynthesis ac mae gan fadarch sborau microsgopig, nid hadau. Maent hefyd yn heterotroffau, sy'n golygu

eu bod yn bwyta! Ond yn wahanol i'r rhan fwyaf o anifeiliaid, nid oes gan ffwng stumogau. Yn lle hynny, maent yn ysgarthu ensymau sy'n treulio eu deunydd tu allan i'w cyrff cyn iddynt eu hamsugno. Nodwedd arall sy'n unigryw i ffwng yw bod ganddynt chitin (y deunydd caled mewn llawer o bryfed) y tu mewn i'w celloedd sy'n caniatáu iddynt dyfu trwy arwynebau caled iawn fel craig neu goncrit.

Fel arfer, mae'r madarch yn tyfu ar ymylon ardaloedd coediog, yn enwedig o amgylch coed derw, llwyfen, ynn ac aethnen. Mae'r rhan fwyaf o fadarch naill ai'n blasu'n chwerw neu ddim byd o gwbl, ac mae nifer fach, diolch byth, yn angheuol. Wrth gwrs, rhai di-flas yw'r lleiaf ohono. Mae'r Cap Marwol, sydd wedi'i enwi'n ffeithiol, yn cyfrif am 90% o wenwyno madarch difrifol yn y DU. Mae'r caws llyffant golygus hwn yn aroglu ychydig fel mêl ac yn eithaf blasus, ond bydd cyn lleied â 30g, neu hanner madarch, yn lladd 80% o'r bobl sy'n ei fwyta. Cyflawnwyd 'Llofruddiaethau Madarch Leongatha' diweddar gan Erin Trudi Patterson, a wenyndodd bedwar o'i pherthnasau yn fwriadol gyda Madarch Marwol mewn Cig Eidion Wellington, gan arwain at farwolaeth tri, ac anaf difrifol i bedwerydd. Efallai bod y Cap Marwol wedi bod yn gyfrifol hefyd am ddiwedd Claudius, y Pab Clement VII, y Tsaritsa Natalia Naryshkina a Siarl VI.

Yr un mor ddiddorol â'r madarch angheuol yw'r rhai seicoweithredol. Mae'r rhain ymhlith y cyffuriau hynaf y gwyddys amdanynt. Maent yn cynnwys psilocybin, cemegyn sy'n cynhyrchu teimladau o lesiant, yn cynyddu ymwybyddiaeth o liwiau a synau ac yn newid y canfyddiad o amser. Ond gall eu cymryd arwain sgil-ffeithiau corfforol fel cyfradd curiad y galon uwch neu gyfog ac ymddygiad sy'n anrhagweladwy – felly nid yw'n syniad da i roi cynnig arny'n nhw!

Mae poblogrwydd madarch yn cynyddu trwy fwy o ddiddordeb mewn diet sy'n seiliedig ar blanhigion, mwy o ddiddordeb mewn iechyd a lles, a chynnydd mewn chwilota am fwyd fel madarch gwyllt a thyfu madarch gartre. Mae rhai pryderon amgylcheddol ynghylch y poblogrwydd tyfu madarch gartref. Mae arbenigwyr wedi dweud dylid dewis citiau tyfu madarch sydd yn rhywogaethau brodorol i'r DU; mae ofnau y gallai madarch anffrodorol a dyfir mewn gerddi neu a waredir mewn tomennu compost achosi trychineb bioamrywiaeth debyg i blanhigion gardd eraill a oedd gynt yn boblogaidd - fel y clymog Japaneaidd ymledol, y rhododendron a'r bambŵ.

Mae rhai madarch yn tyfu heb fawn fel madarch wystrys pinc, melyn a llwyd, shiitake, a mwng llew. Fodd bynnag, mae rhai o'r madarch mwyaf poblogaidd fel madarch botwm gwyn, castanwydd, portobello, a madarch wystrys brenin yn tyfu orau mewn compost sy'n seiliedig ar fawn. Hefyd mae angen llawer o ddŵr ar

bob rhywogaeth o fadarch i dyfu a datblygu'n gynhaef sylweddol. Ar hyn o bryd mae cwmnïau'n parhau i chwilio am ffyrdd eraill mwy ecogyfeillgar o gynhyrchu madarch ar raddfa fawr a Sainsbury's yw'r archfarchnad gyntaf yn y DU i werthu madarch confensiynol sydd wedi'u tyfu heb fawn.

Beth am fanteision bwyta madarch? Maen nhw yn isel mewn calorïau a braster dirlawn gan eu gwneud yn ychwanegiad iach at eich diet. Er nad ydynt yn cynnwys cymaint o brotein â chig, mae ganddynt fwy na'r rhan fwyaf o lysiau, gan eu gwneud yn ffynhonnell dda o brotein sy'n seiliedig ar blanhigion. Maent yn ffynhonnell dda o fitaminau grŵp B, seleniwm, potasiwm, copr a sinc. Os caiff madarch ffres neu sych eu hamlygu'n fasnachol i olau UV am gyfnod byr, gall 100g ohonynt ddarparu 50–100% o'r gofynion dyddiol o fitamin D. Mae madarch wedi'u cyfoethogi â fitamin D ar gael mewn archfarchnadoedd ac yn ffynhonnell ddefnyddiol o'r 'fitamin yr heulwen', yn enwedig yn ystod y gaeaf. Mae madarch hefyd yn cynnwys polyffennolau sy'n gysylltiedig â gwell iechyd y perfedd a'r galon. O ganlyniad, mae cynhyrchion fel te, coffi a siocled wedi'u trwytho â madarch, phowdrau a chapsiwlau a werth. Mae nifer yn hawlio manteision gan gynnwys hyrwyddo iechyd y galon a'r ymennydd, lleddfu clefyd lliidiog y coluddyn a symptomau ADHD. Er nad yw'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r honiadau hyn



yn gryf tydi hyn ddim yn atal cwmnïau rhag cystadlu i gynnig 'cynhyrchion bwyd ffasiynol'. Mae Holland & Barrett yn stocio dros 17 o gynnyrch ffwng gwahanol ac Marks and Spencer wedi cyflwyno ystod o 'fwyd swyddogaethol' a elwir 'YAY!' Mae'r rhai'n yn cynnwys pum diod newydd sy'n ymgorffori'r madarch Lion's Mane a Reishi gan honni eu bod yn darparu egni a helpu ni i ymlacio.



## Colofn Blasus a lachus (Parhad)

Yn llawn asid glwtamig, mae madarch yn cynhyrchu cyfansoddiad blas cig wrth eu coginio. Dywed golygydd cylchgrawn Good Food, Keith Kendirck, mai madarch yw 'y bwyd sy'n seiliedig ar blanhigion, o ran gwriad a blas, sydd agosaf at stêc'. Mae'n awgrymu berwi madarch nes bod y dŵr yn rhedeg yn sych, yna ychwanegu menyng neu fraster arall, i'w brownio a chael y blas umami gorau. Mae Jane Grigson yn neilltuo llyfr coginio cyfan i fadarch, *'The Mushroom Feast'*, ac yn dweud y dylem osgoi prynu madarch botwm bach gan nad ydynt wedi cael amser i ddatblygu blas llawn. Fel Grigson, Elizabeth Davey a Nigella Lawson, rwy'n credu eu bod ar eu gorau wedi'u paru â sialôts, garleg a phersli. Mae gan Rachel Roddy rysâit dda ar gyfer madarch wedi'u stwffio lle mae'r coesynnau, winwsyn, garleg, menyng, ychydig o ansiofis wedi'u malu, persli wedi'i dorri, briwsion bara ac wy yn cael eu defnyddio fel stwffin. Mae Grigson hefyd yn gweini madarch fel salad gyda chiwcybr, dil a hufen sur. Mae gan Nigel Slater rysâit korma madarch a sbigoglys ac mae gan Nerys Howel rysâit ar gyfer madarch, sbigoglys a sudd lemwn i gyd-fynd â hwmws betys; mae hi hefyd yn eu gweini wedi'u llenwi â chaws Morgannwg yn *Bwyd Cymru yn ei Dymor*.

Shitake yw'r madarch mwyaf poblogaidd ar gyfer coginio Tsieineaidd a Japaneaidd gyda'r fersiwn sych yn cael ei ddefnyddio i greu cawl dashi mewn coginio Japaneaidd ac yn y 'Buddha's Delight' Tsieineaidd, dysgl wedi'i ffrio o lysiau cymysg a tofu wedi'i orchuddio mewn saws shitake.

Rwy'n arbennig o hoff o'r ryseitiai sydd gen i ar gyfer Pastai Ffilo Madarch Gwyllt a Stilton fel prif gwrs llysieuol ac un ar gyfer Vincisgrassi sy'n defnyddio porcini sych a madarch gwastad gyda ham parma gyda thafleuni lasagne. Rwyf bob amser yn cadw madarch sych yn y cwpwrdd gan y gallant fod yn hwb umami defnyddiol ar gyfer cawliau, pasta, a risotto. Gellir defnyddio'r hylif sy'n weddill o socian madarch sych fel stoc ar gyfer grefi.

Os nad ydych chi'n hoff o fwyta madarch, efallai yn y dyfodol, y byddwch chi yn gwisgo eitemau wedi'u gwneud ohonyn nhw! Mae madarch yn chwarae rhan yn y chwiliad am gynhyrchu dewis arall fegan a chynaliadwy yn lle lledr go iawn. 'Mylo' yw enw'r deunydd tebyg i ledr sydd wedi ei greu gan wyddonwyr a pheirianwyr cwmni Bolt Threads yng Nghalifornia. Gwneir y 'lledr' cynaliadwy hwn o fyceliwm ac mae dalennau mawr o ewyn blewog yn cael eu tyfu o gelloedd ffwngaudd. Mae'r celloedd yn cael eu bwydo ar flawd llif gwastraff, mewn cyfleuster ffermio fertigol. Yna cânt eu lliwio yn yr un broses â'r un a roddir ar groen anifeiliaid. Dywedir bod Mylo bron yn anwahanadwy o ran golwg a themlad o'i gymharu â lledr traddodiadol. Defnyddir y 'lledr amgen' hwn gan enwau enwog fel Stella McCartney a chwmnïau Adidas,

## Bragdy Twt Lol ar y Brig

Llongyfarchiadau i Philip Thomas a Bragdy Twt Lol, Ystâd Trefforest, ar eu llwyddiant yng nghystadlaethau Cymdeithas Bragwyr Annibynnol Cymru yn Hwlfordd ar 19 Medi.



Bragdy Twt Lol - Pencampwyr Cask a Bragdy Cybi - Pencampwyr Keg

Roedd Phil wrth ei fodd fod Pyncio Pioden IPA wedi ei ddyfarnu yn gwrw gascen gorau Cymru a derbyniodd prwp arbennig fel gwobr. Yn ogystal enillwyd pedair gwobr arall sef Pyncio Pioden IPA - Cask Pale Ales (4.4 to 5.5%) - Aur. Glog - Cask Chwerw ( $\leq 4.4\%$ ) - Arian Blŵbri - Cask Cwrw Ysgyfan Arbennig - Arian. Pilsen Ponty Pils - Keg Lager ( $\leq 4.4\%$ ) - Efydd.

Ar ddiwedd Medi bu'r bragdy yn dathlu 10 mlynedd ers agor yn Nhreffroest.



Gucco, YSL, Balenciaga a Danaidd Ganni.

Atebion y cwis oedd yn rhifyn mis Medi

Pa frwyth sy'n ymddangos yn y nofel *The Island of the Missing trees?* **ffigys**

Pa ddinas sy'n cael ei henwi 'prifddinas marsipan'? **Lubek**

Pa gynhwysyn/eitem bwyd sy'n creu mwaf o broblemau/heriau I'r cogydd cartref?

**Yr Wy**

Beth honais I yw a. Usain Bolt y byd llyisiau? asbaragws b. Bresych gyda addysg coleg? **blodfresych** c. Perl bach? **lemwn** d. Marmite y llyisiau?

**ysgewyll Brwsel**

Beth sy'n cael ei enwi 'The Hawaiian Steak'? **SPAM**

Pwy, yn ôl pob son, ddyfeisiodd yr hufen ia sgŵp meddal? **Margaret Thatcher**

Pa saws gafodd ei alw'n 'Wilson's Gravy'? **saws HP**

Pa ffrwyth roddwyd yn anrheg i Aphrodite gan Paris? **cwins**

Am pa fwydydd mae'r canlynol yn cael y clod am eu dyfeisio? a. Escoffier - **Peach Melba**

b. Oscar Tschirky - **Salad Waldorf** c. Janaet Keiller o Dundee - **marmaled** d. John Montague - **Y frechdan**

Pwy y'n hoffi brechdan jam wedi'i ffrio? **Delia Smith**

## Criced a Rygbi Pentyrch

Llongyfarchiade mawr i Glwb Criced Pentyrch ar ennill tlws clodfawr a phwysig ar ddiwedd y tymor - tlws Cwpan y Pentrefi a ddyfernir bob blwyddyn i'r clwb sydd wedi gwneud y cyfraniad cymdeithasol mwyaf i'r gymuned leol. Roedd cyfraniad dim llai na 350 o glybiau ar hyd a lled gwledydd Prydain yn cael eu hystyried, a Pentyrch aeth â hi yn sgil eu hymroddiad i feithrin talent yr holl chwaraewyr - bechgyn a merched, ifanc a hen, y croeso chwedlonol sy'n aros pawb sy'n dod i Barc y Dwrllyn i gefnogi eu timoedd, a'r ymdrech i sefydlu'r clwb yn rhan bwysig o fywyd y pentre dros fisoedd yr Haf.



John Moore, Cadeirydd Clwb Criced Pentyrch (ar y chwith) yn derbyn gwobr Cwpan y Pentrefi yn Lords

Yn deilwng iawn cafodd y Cadeirydd John Moore ddiwrnod i'r brenin pan aeth i Lord's yn ddiweddar i wylwio rownd derfynol Cwpan y Pentrefi; gloddesta hefyd yng nghysegr sancteiddiolaf maes enwog Thomas Lord - Y "Long Room" fel y'i gelwir, ac wrth gwrs i dderbyn y Tlws. "Diwrnod bythgofiadwy" medde fe wedyn, a llongyfarchiade medden ni iddo fe a'r criw i gyd ar eu llwyddiant.

### Clwb Rygbi Pentyrch

Mae'r tymor newydd wedi dechre'n addawol i brif dîm rygbi Pentyrch. Ennill y ddwy gêm agoriadol yn ddigon cyffyrddus - gartre yn erbyn Ffynnon Taf ym mrwydr fawr draddodiadol bob tymor, ac yna bant o gartre yn Llanilltud Faerdre. Beth am ddoed i gefnogi'r gwahanol dimoedd ar brynghawn Sadwrn. Gallwn sicrhau y bydd croeso mawr yn eich haros ar Barc y Dwrllyn yn ystod y gêm ac wrth gymdeithasu am awr fach wedyn yn y clwb. Dyma ddyddiade'r gêmiau gartre nesa i'r tîm 1af: Hydref 6ed - Y Bontfaen; Hydref 18 ed - Harlequins y Porth; Tachwedd 8 ed - Cwins Caerdydd. Ond cofiwch bod yr ail dîm a'r leuenctid hefyd yn chwarae ar brynghawn Sadwrn a holl dimoedd y mini a'r ifanc o 6 - 15 oed - Yr M&J's - ar fore Sul. Edrychwch mlân at gael eich cwmni.

## Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

### Mis Hydref :

5 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion [YS cynradd ac uwchradd]

12 – Oedfa Diolchgarwch yr Ysgol Sul

19 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths

26 – Oedfa Sul Adferiad dan ofal Wynford Ellis Owen [dim YS]

### Mis Tachwedd:

2 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion [YS cynradd ac uwchradd]

9 – Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts

16 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Samuel

23 – Oedfa dan ofal Allan Cook

30 – Oedfa dan ofal y Parchedig Jeff Williams [YS yn paratoi at y Nadolig]

---oooOOOooo---

Un o bleserau mawr ymddeol ydi cael yr amser i ymlacio, ac ymddihatu oddiwrth orchwylion swydd a threfniadaeth anorfod bod yn gyflogedig.

Cofiwch chi nid awgrymu a wnaif fod ymddeol yn gyfystyr a diogi! (Mae'r wraig yn sicrhau nad ydi hynny yn digwydd!)

Ond mae yna gyfleoedd i wneud rhai pethau sydd hwyrach wedi gorfod cael eu hepgor oddimewn i gyfundrefn "naw -hyd-bump" / "Llun i 'r Gwener" wythnos waith.

'Rwyn cyfrif fy hun yn ffodus o fod yn cael cwmni nifer o wŷr cyd-nerth, sy'n trigo o fewn dalgylch Mynydd y Garth, bob bore Gwener, i gychwyn ar daith gerdded ar hyd llwybrau'r fro.

Mae'r criw, wyth neu naw ohonom, yn dilyn cyfarwyddiadau manwl yr un y cyfeiriwn ato fel "Ein Harweinydd", ac yn ymlusgo'n eitha hamddenol o'i ôl i gyfeiriadau gwahanol y map a'r cwmpawd anweledig sydd yn ei law.

Mae'r cerddwyr wedi eu gwisgo'n addas ar gyfer pob taith, ac yn barod i wynebu her pob tywydd a gyflwynir gan y pedwar tymor.

O gofio am y cyswllt agos sydd rhwng yr ardal hon â Chadwgan [Cadwgan Fawr neu Cadwgan Lly hog y Fwyell], yn addas iawn fe gynigiwyd yr enw "Cerddwyr Cadwgan" ar y criw, ac er nad oes no logo nac arwyddair wedi ei ddewis (hyd yma!), mae yna drefn a disgyblaeth ym mhob ystum o'u hymddygiad.

Prysuraf i ddweud nad y criw presennol fu'n gyfrifol am gychwyn yr arferiad yma o gerdded wedi ymddeol – yn wir gellid awgrymu mai dilyn patrwm y merched a wnaethpwyd – mae'n deg iddynt hawlio'r clod i gyd y tro yma?

Mae'r lleoliadau, a hyd y daith o wythnos i wythnos yn amrywio, ond mae 'na fel arfer le i gael paned o goffi rhywle yn y canol, a lle i gael ymborth ar ei diwedd.



Y Ddraenen Wen

Mae'r ddefod o archebu coffi wedi ei mireinio dros y blynnyddoedd, a phawb o'r criw yn cael yr union un peth o wythnos i wythnos, gyda'r rhestr yng ngrombil eu ffôn rhag tramgwyddo!

Ac mae'r sgwrs hefyd yn amrywiol, gan gynnwys materion llosg y dydd, hanes Cymru a'i llenyddiaeth, chwaraeon, heb anghofio'r straeon di-rif am froydd mebyd yr unigolion.

Ac wedi trin a thrafod rhagoriaethau (a gwendidau) yr ardaloedd rheini, down yn ôl i gyd yn gytûn fod ein teithiau cerdded wedi cyflwyno i ni y fath gyfoeth ac amrywiaeth na fedrwn mewn difrif calon ddim ond syllu, synnu a rhyfeddu ar y cyfanwaith.

Mae'r clytwaith o lwybrau yn rhywbeth i'w ryfeddu ato – a dylid cydnabod bod y llwybrau cyhoeddus o fewn goruchwyliaeth Cyngor Cymuned Pentyrch, yn cael eu cadw mewn cyflwr arbennig o dda. Tydi hyn ddim bob amser yn wir am rai o'r ardaloedd yr ymwelir a hwy ar ein teithiau wythnosol.

Mae yna adeiladau a henebion diddorol i'w gweld yma ac acw; gwelir olion y diwydiannau a fu'n gymaint cynhaliath i'r ardaloedd dros y canrifoedd; mae capeli gweigion, anferth eu maint, ar hyd ac ar led y cymoedd cyfagos, yn arwydd o'r galw am lefydd i addoli (yn y Gymraeg) a fu yn ystod ail-hanner y ddeunawfed ganrif; mae llwybrau rheilffyrdd diflanedig yn croesi'n blith-draphlith ers i'r "gerbydres" ennill ei phlwyf ers 200 mlynedd bellach (a'r camlesi cyn hynny).

Ond byd natur sydd yn ein swyno- mae'r uchod yn aros yr un fath o dymor i dymor, ond mae byd natur yn newid wrth i'r tymhorau droi o wanwyn hyd at y gaeaf, a diolch am hynny.

Mae clywed bref y ddafad yn chwilio am ei hoen yn ystod y tymor wyna yn ein cyffwrdd; mae gweld y llwynog coch yn sgrealu trwy'r eira yn ein cyffroi; mae gweld y tir yn cael ei aredig yn ein llenwi a gobai, ac mae sylwi ar y cynaefu yn ein bodloni.



Y Ddraenen Ddu

Mae'r adar yn tiwnio ar y canghennau; gwennol gynta'r tymor; deu-nod y gwcw; yr hebog a'r bwncath yn hofran uwch ein pennau

Ymddengys fod y cloddiau a'r gwrychoedd yn edrych ar ol eu hunain – yn baled o flodau gwyn, melyn, glas a phinc yn eu tro; blagur ar y gastanwydden; blodyn ar y ddraenen wen; mwyaer, mefus gwyllt a llus yn lliwio yn yr heulwen; cnau ar y coed cyll; eirin surion ar y ddraenen ddu.



Y Gelynnen

Mae 'na awgrym eleni bod y llwyni a'r coed yn fwy ffrwythlon nag a welwyd ers peth amser. Mae'r dderwen yn ein gardd gefn ni yn tystio i hynny, a gallwn dyngu fod y mës sy'n syrthio i'r llawr o'r canghennau fry i'w gweld yn fwy o lawer o ran eu maint a'u nifer.

Mae aeron coch yn pefrio ar y gelynnen yn barod, ac mae'r ddraenen wen hefyd fel petae mewn cystadleuaeth a hi, yn arddangos y cyfan o'i gemau coch ar yr un pryd.

Wedi dychwelyd o'r daith gerdded ddiweddaraf ar gyrion Bro Morgannwg, (ar y 19eg o Fedi), fe anfonwyd pwt o adroddiad o'r Western Mail ataf gan un o'r Cerddwyr, oedd yn gadarnhad o hynny.

Nid oeddwn yn gyfarwydd â'r term a ddefnyddir yn yr erthygl – "mast year"\* – sy'n cyfeirio at flwyddyn pan fydd coed fel derw, bedw a'r Parhad tudalen 17 >

## Menter Caerdydd



### Tymor yr hydref

Wedi dechrau prysur i'r tymor, bydd Menter Caerdydd yn lansio mwy o gyrsiau newydd dros yr wythnosau nesaf yn ogystal â threfnu llu o weithgareddau i aelodau iau'r teulu dros hanner tymor. Byddwn hefyd yn dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae ar 15 Hydref gan gynnal gweithgareddau hwyliog yng nghanol y brifddinas. Gyda'r pwyslais eleni ar gael 'hwyli' yn Gymraeg, edrychwn ymlaen at glywed sut byddwch chi'n dathlu'r diwrnod!

Dyma gip ar rai o weithgareddau mis Hydref.

### Bethlehem, Gwaelod-y-garth (Parhad)

gastanwydden yn cynhyrchu cnwd sylweddol o ffrwythau a chnau. [\*Mae *Geiriadur Bruce* yn cynnig *mesen* a *cneuen* (am *mast*) fel dehongliad yn Gymraeg.]

Yn ol y Woodland Trust, gall 2025 fod yn flwyddyn eithriadol o ran y nifer o fës a gynhyrchir.

Fe ddigwydd blwyddyn debyg bod rhyw 5 i 10 mlynedd yn ol yr arbennigwyr (2013 oedd y tro diwethaf), ac a'r erthygl ymlaen i gynnig eglurhad am hyn:-

*"Mae'n gostus, o ran ynni, i'r coed gynhyrchu cnau a hâd ar unrhyw amser oherwydd gwerth caloriffig uchel y ffrwyth, a'u bod yn llawn maeth. Felly mae tu hwnt i'w gallu i gynhyrchu cnwd enfawr bob blwyddyn.*

*Os mai ychydig o had a gynhyrchir yn flynyddol, byddai cyfran uchel o hwnnw yn cael ei fwyta gan y bywyd gwyllt sydd o gwmpas. Ond os bydd y coed yn arbed ynni o flwyddyn i flwyddyn, bydd digon ar gael ymhen amser i gynhyrchu cnwd mawr yn achlysurol, gan sicrhau bod mwy o siawns wedyn i beth ohono egino a thyfu, er sicrhau parhad y rhywogaeth."*

Mae'r erthygl yn cydnabod nad yw'n wybyddus sut y mae'r coed hyn yn cydlyn eu bwriad i gynhyrchu eu cynyddau mawr o dro i dro!

*"Yna dwedodd Duw, "Dw i eisiau i laswellt dyfu o'r tir, a phob math o blanhigion sydd a hadau ynddynt nhw, a choed ffrwythau. Bydd yr hadau ynddyn nhw yn gwneud i fwy a mwy o'r planhigion gwahanol dyfu. [Genesis 1:11]*

*Dwedodd Duw, "Edrychwch. Dw i wedi rhoi'r planhigion sydd a hadau a'r ffrwythau ar y coed i gyd, i fod yn fwyd i chi" [Genesis 1:29]*

Mae coel gwlad yn nodi y gellir disgwyl gaef caled os yw'r cnwd yn gynnwys ac yn niferus – gocheler pan ddaw'n gaef!

### Cynganeddu

Bydd y sesiynau **Cynganeddu** yn ail-ddechrau ar nos Fawrth, 7 Hydref gyda thri dosbarth ar gyfer gwahanol lefelau. Bydd y dosbarthiadau'n cwrdd yn Chapter, gydag opsiwn i ymuno ar-lein. Ceir manylion llawn ar y wefan. £98 am 10 sesiwn.

### Teithiau Tywys

Rydym yn cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Mentrau Iaith Cymru i gynnal taith dywys ar gyfer siaradwyr newydd i Stadiwm y Principality ar fore Mawrth, 21 Hydref. I gofrestru, anfonwch e-bost at:

[ardroed@mentrauiath.cymru](mailto:ardroed@mentrauiath.cymru)

Ar fore Iau, 13 Tachwedd, bydd taith dywys i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i weld y casgliadau crochenwaith a phorslen (10:30-11:30). Mae'r daith awr o hyd yn rhad ac am ddim ond mae'r niferoedd yn gyfyngedig. Gellir cofrestru ar y wefan ac mae'r ymweliad yn addas i bawb – siaradwyr rhugl a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg.

### Laffwyl!

Fe enillodd y comedïwr Steffan Alun wob Pegasus am ei waith yng Ngŵyl Ymylol Caeredin eleni. Yn ffres o'r ffrinj, bydd cyfle i'w weld yn perfformio yn Laffwyl nos Iau, 23 Hydref yn Nhafarn Parc Fictoria. Hefyd yn perfformio bydd Siôn Owens ac Ellis Lowe a'r MC Aled Richards fydd wrth y llyw. **Tocynnau:** £10 o flaen llaw neu £12 ar y drws. **Amser:** 7.30yh.

### Sgwrs y Mis

Taith i fyd Thomas Pennant a'i gymdeithion Cymraeg a gawn yn Sgwrs mis Hydref yng nghwmni Dr Ffion Mair Jones o'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd. Roedd y teithiwr a'r naturiaethwr Thomas Pennant, yn ffigwr rhyngwladol yn ystod ei oes ond yn un a gollwyd yn yr ymwybod Cymreig wedi ei ddyddiau. Ceir cyfle i fwrw golwg ar ddylanwad Pennant ar Gymry'r ganrif wedi ei farwolaeth, hyd at gyhoeddi cyfieithiad arloesol yr ysgolhaig John Rhys o'i waith mwyaf Cymreig, *Teithiau yng Nghymru*. **Nos Lun, 27 Hydref, 7.30yh ar Zoom.** (Awgrym cyfraniad o £5 y sgwrs i'r rhai sydd heb ymaelodi am y flwyddyn.)

### Gweithgareddau yn y gymuned:

Cofiwch am ein boreau coffi yn Hyb Rhiwbeina, Hyb Rhydpennau a Hyb Llancirwg bob yn ail wythnos a'r sesiynau sgwrsio wythnosol bob prynhawn Iau yn Hyb y Llyfrgell Ganolog. Mae'r sesiynau yn gyfle i siaradwyr rhugl a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg ddod at ei gilydd am sgwrs.

### Plant a Theuluoedd:

Rydym yn falch o gyhoeddi bydd ein cynllun Gofal yn rhedeg mewn tair ysgol yn ystod gwyliau hanner tymor mis Hydref - Ysgol Treganna, Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol Y Berllan Deg. Y gost yw £35 y diwrnod ac mae'r dyddiadau a'r manylion cofrestru i'w gweld ar ein gwefan.

Bydd y sesiynau chwarae agored rhad ac am ddim, Bwrlwm, hefyd yn

dychwelyd gyda gweithgareddau hwyliog i blant oed cynradd ar draws y ddinas.

### Bwrlwm Teulu Tafwyl!

Yn dilyn llwyddiant ein sesiynau misol i blant niwroamrywiol a'u teuluoedd, bydd y cynllun yn parhau yn nhyror yr hydref. Cynhelir y sesiwn nesaf yn Neuadd Ysgol Treganna am 10.30yb ar fore Sul, 26 Hydref. Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim ac yn addas ar gyfer y rhai sydd wedi derbyn diagnosis neu ar y rhestr aros.

### Edrych ymlaen at fis Tachwedd:

Cwrs ar Zoom yng nghwmni Bethan Mair: 'Ynof Mae Cymru'n Un: trafod rhai o gerddi TH Parry-Williams, Waldo, Gwenallt a Saunders Lewis' (3, 10, 17, 24 Tachwedd am 7.30yh, £20).

### Gwersi Gwnio

Dewch i ymuno â Janet James ar gyfer cyfres newydd o wersi yn canolbwyntio ar sgiliau gwnio yn defnyddio peiriant. Mae croeso i chi ddod â'ch peiriant eich hun ond bydd nifer ar gael i'w benthg. Cynhelir y dosbarthiadau bob nos Fawrth o 4 Tachwedd, am 6.30-8.00yh yn Yr Atrium, Prifysgol De Cymru, a'r gost yw £60 am 6 sesiwn.

### Gigs y Rhath

Mae Menter Caerdydd yn falch o gefnogi menter newydd i gynnal gigs Cymraeg yn nwyrain y ddinas. Y syniad yw cynnal nosweithiau cerddorol yn Paradise Gardens, City Road, gan ddechrau gyda noson yng nghwmni'r gantores Alis Glyn a'r band ifanc Paralel, nos Fercher, 12 Tachwedd. **Tocynnau:** £10 o wefan Menter Caerdydd.

I gofrestru ar gyfer gweithgareddau i oedolion, ewch i: [mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion](http://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion)

I gael gwybodaeth am weithgareddau i blant: [mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc](http://mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc)

Cadwch lygad ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth!

**Gwefan:** [mentercaerdydd.cymru](http://mentercaerdydd.cymru)

**Facebook:** @m.caerdydd

**Instagram:** @mentercaerdydd

**E-bost:** [post@mentercaerdydd.cymru](mailto:post@mentercaerdydd.cymru)

**Ffôn:** 029 2068 9888

## CWRS AR ZOOM

Ynof Mae Cymru'n Un:  
trafod rhai o gerddi TH Parry-Williams,  
Waldo, Gwenallt a Saunders Lewis  
yng nghwmni Bethan Mair

**4 nos Lun ym mis Tachwedd yn dechrau:**

**03.11.25 | 19:30-20:30**

Cyflwyniad i'r beirdd a'u cerddi a chyfle i  
drafod argraffiadau personol wrth ddarllen.

Recordiadau ar gael os byddwch  
yn colli sesiwn.

[mentercaerdydd.cymru/oedolion](http://mentercaerdydd.cymru/oedolion)  
[rachel@mentercaerdydd.cymru](mailto:rachel@mentercaerdydd.cymru)

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:  
Marian Wynne

## Croeso i'r Pentref

Croeso i Darren a Carys Brown a Mali wedi iddynt symud o Meisgyn i Heol y Pentref. Mae Mali'n hen gyfarwydd â'r ardal gan ei bod yn mynd i Ysgol Gynradd Creigiau. Ond bydd y daith i ymweld â nhw yn wahanol i'w Nain a'i Thad-cu sef Eifiona a Cliff Hewitt, Efail Isaf. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref Newydd.

## Byd Golf

Roedd 180 yn cystadlu ar Gwrs Golf Wrecsam yng Nghystadleuaeth Golf Eisteddfod 2025. Llongyfarchiadau enfawr i Huw Llywelyn Davies am ddod i'r brig mewn cystadleuaeth mor safonol. Enillodd gyda 43 pwynt Stableford - a hynny 40 mlynedd ar ôl iddo ennill y Gystadleuaeth Eisteddfodol gyntaf erioed yn Rhuddlan ym 1985!



## Priodas Aur

Llongyfarchiadau hefyd i Huw a Carol wrth iddynt ddathlu eu Priodas Aur. Mae'n siwr iddynt fwynhau'r dathlu gyda'r teulu yn Kos.

## Trafodaeth ar 'Wales Today'

Ar raglen 'Wales Today' cafodd Sara Pickard gyfle i drafod yr anghyfartaledd rhwng yr oedran y mae pobl ag anabledau a'r boblogaeth yn gyffredinol yn marw. Pwysleisiodd Sara ei bod hi ei hunan yn ofalus iawn o'i hiechyd ac yn manteisio ar bob cyfle ddaw o weld y meddyg yn lleol neu yn yr ysbyty.

## Derbyniad Dinesig

Digwyddiad arall o bwys yng nghalendr blyneddol y pentref yw'r Derbyniad Dinesig a gynhelir i gydnabod cyfraniad arbennig y gwahanol fudiadau i fywyd yr ardal. Ceir cyfle i'r mudiadau hyn amlinellu'r gwaith a wneir ganddynt yn lleol ac eleni bu Hannah Hopes yn sôn am Rangers Gwaelod y Garth, Lucy O'Leary am Rangers Pentyrch, Y Clwb Criced, Sioe Pentyrch a Chymdeithas Rhieni Ysgol Pentyrch. Soniodd Adrian Isaacs am waith Cyngor Cymuned Pentyrch. Croesawyd pawb i'r digwyddiad gan y cynghorydd Huw Roberts ac roedd cynrychiolwyr o

Ferched y Wawr ac o Glwb y Dwrllyn yn bresennol yn ogystal ag Arglwydd Faer Caerdydd a'r Faeres a'r Aelod Cynulliad lleol Mark Drakeford.

## Problem y Wisteria

Daeth Adam Yn Yr Ardd, rhaglen P'nawn Da, i Bentyrch i edrych ar gyflwr truenus y Wisteria yng ngardd Eifion a Joy Glyn. Cafwyd canmoliaeth uchel i'r blodau lliwgar yn y cefn a chyngor gwerthfawr ar sut i annog y Wisteria i flodeuo eto.



## Tenis

I gydfynd â chystadleuaeth tenis yr US Open cynhaliwyd cystadleuaeth i glybiau tenis yr ardal ym Mhenarth ddiwedd Awst. Bu cystadlu brwd rhwng unigolion o glybiau Llantrisant, Radur, Penarth a Phentyrch. Daeth clwb Pentyrch i'r brig gan gipio dwy brif wobwr. Llongyfarchiadau i Owen Johnson, enillydd y tlws aur a Math Rogowski am gipio'r efydd.

## Priodas

Ar brynghawn braf ganol Awst dathlwyd priodas Gavin a Stacey go iawn pan briodwyd Medi Warburton ag Alex Powell gynt o Essex yn Nhŷ a Pharc Bedwellty, Tredegar. Mae'r ddau wedi ymgyrtu yn Mrynawr ers tua dwy flynedd bellach. Wedi graddio bu Medi'n gweithio yn y sector addysg yn bennaf cyn newid yn 2023 i ofalu am oedolion anabl a bregus, yn Y Fenni ar hyn o bryd.

Llongyfarchiadau gwresog a phob dymuniad da i'r pâr ifanc.



## Clwb y Dwrllyn

Cafwyd gwledd o ganu yng nghyfarfod cynta tymor newydd Clwb y Dwrllyn yng nglwb Rygbi Pentyrch. Croesawyd côr disgyblion Ysgol Gymraeg y Fro gyda'u harweinydd Catrin Williams a'u cyfeilydd Stuart Roberts a'r cyflwynwyr Alys ac Aled, y ddau brif ddisgybl. Mewn rhaglen amrywiol swynwyd y gynulleidfa gan ddehongliad y côr o nifer o ganeuon Robert Arwyn ac yn sicr mae dyfodol disglair i'r awadwyr dawnus.

Uchafbwynt y noson i rai o aelodau Côr Hen Nodiant - y "blue rinse brigade" yn ôl Marian Evans - oedd cael gwranddo ar y lleisiau ifanc yn canu Adre'n Ôl - ac yna'r profiad o gyd-ganu gyda nhw.

Diolch i Catrin a Stuart a'r côr am noson hyfryd ac am eu holl waith caled a'u brwdfrydedd. Dymunwn yn dda i'r cantorion dawnus wrth iddynt baratoi ar gyfer eu sioe gerdd nesaf- Swyn y Gân.

## Sioe'r Pentref

Cynhaliwyd Sioe'r Pentref ddechrau Medi gyda phwyllgor newydd wrth y llyw eleni, Roedd yn gyfle gwych i'r pentrefwyr ddod at ei gilydd ac arddangos eu doniau o ran tyfu llysiau ffrwythau a blodau yn ogystal â choginio, gwaith celf a chreffft a ffotograffiaeth. Cafwyd cefnogaeth gref i'r digwyddiad ac enillwyd ambell dlws gan ddarllenwyr Tafod Elái!



## Acapela

"Gwfreiddiol, gwych, bythgofiadwy!" Dyna oedd ymateb y rhai a fu yn ddigon ffodus i glywed datganiadau Charlie Lovell Jones ar y feiolin a Julian Chan ar y piano yn Acapela ddiwedd Medi. Bu'n noson i'w thrysori a gobeithio y daw cyfle i brofi o'u talentau unwaith eto cyn hir.

## Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant



### Ffarwelio mis Gorffennaf

Mae diwedd tymor ysgol bob tro'n gymysgwch o deimladau: hapusrwydd o gael gweld y disgyblion yn ffynnu a datblygu dros y flwyddyn, cyffro wrth edrych ymlaen at y gwyliau haf, ac wrth gwrs tristwch wrth i ni ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6. Dymunwn bob hwyl i'n holl gyn-ddisgyblion sydd bellach wedi dechrau ymgartrefu ym Mlwyddyn 7 yn eu hysgolion newydd.

Yn ogystal, bu'n rhaid i ni ddweud hwyl fawr ym mis Gorffennaf i bedwar aelod o staff gweithgar ac ymroddedig: Mrs Alyson Hurst, Mr Euros Jones, Mrs Cathy Cowles a Miss Rebecca Shephard.



Bu Mrs Hurst yn gweithio yn YGGG Llantrisant (neu Ysgol Gymraeg Llantrisant hyd at 2005) am 41 o flynyddoedd fel Nyrs Feithrin a Chynorthwydd Addysgu Lefel Uwch yn yr ysgol. Ymunodd â staff yr ysgol ym Medi, 1983. Tybed faint o blant bach sydd wedi cael eu haddysgu o dan ofal Mrs Hurst yn ystod y cyfnod hwn? Mawr iawn yw ein diolch i Mrs Hurst am ei hymroddiad a'u gwaith caled ar hyd y blynyddoedd. Braf oedd gweld gymaint

o gyn-aelodau staff yr ysgol ar ddiwrnod ola'r tymor yn dathlu ymddeoliad Alyson a diolch yn fawr i bawb anfonodd negeseuon a fideos o gyfarchion hefyd. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddi.

Hoffem longyfarch Mr Euros Jones ar ei benodiad yn Ddirprwy Bennaeth, Ysgol y Ferch o'r Sgêr, Sir Penybont, ar gyfer Medi 2025. Heb os, bydd yr ysgol yn gweld eisiau Mr Jones yn fawr a hoffem ddiolch iddo am ei ymroddiad i'r ysgol ac am ei holl waith caled, y tu fewn a thu fas i'r ystafell ddosbarth, ers iddo ymuno â ni fis Medi 2013. Nid yn unig fel Athro y byddwn yn gweld eisiau Mr Jones ond fel hyfforddwr chwaraeon a Thechnegydd TGCh hefyd!

Gorffennodd Cathy Cowles yn ei rôl fel Cynorthwydd Dosbarth ar ddiwedd Tymor yr Haf. Mae Mrs Cowles wedi bod yn aelod ffyddlon o staff yr ysgol ers Mawrth, 1989 - fel Goruchwylydd y Neuadd Ginio, Cynorthwydd Un i Un a Chynorthwydd Dosbarth ar hyd y blynyddoedd. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Mrs Cowles am ei hymroddiad a'r holl waith caled ar hyd y blynyddoedd ond byddwn dal yn gweld Mrs Cowles bob amser cinio gan ei bod yn aros gyda ni fel Goruchwylydd y Neuadd Ginio.

Gorffennodd Rebecca Shephard yn ei rôl fel Cynorthwydd Addysgu ar ddiwedd Tymor yr Haf. Daeth Miss Shephard atom fis Mawrth, 2023 wedi iddi weithio gyda ni trwy Asiantaeth cyn hynny. Hoffem ddiolch i Miss Shephard am ei holl waith caled yn ystod y cyfnod hwn a dymunwn bob lwc iddi yn ei rôl nesaf.

## Seiclo i Tŷ Hafan



Mae Ynyr Roberts, aelod o Gôr Godre'r Garth, wedi seiclo tua 200 milltir ar draws Cymru o Gaernarfon i Gaerdydd i godi arian i hosbis plant Tŷ Hafan. Hefyd bu'n seiclo ar beiriant am ddiwrnod yn Asda Coryton. Gallwch gyfrannu i gefnogi'r achos pwysig yma ar <https://www.justgiving.com/page/ynyrr-roberts-3>

### Croeso

Croeso mawr i'n disgyblion newydd yn y Dosbarth Meithrin. Mae'r plant wedi dechrau ymgartrefu erbyn hyn yn eu dosbarth newydd ac yn mwynhau llw o weithgareddau cyffrous drwy gyfrwng y Gymraeg yn barod.

Croeso mawr hefyd i Mr Matthew Robson sydd wedi ymuno â'r staff addysgu ac sydd yn dysgu plant Blwyddyn 1 eleni.

### Ymweliad Deietegydd

Daeth Gwawr James i'r ysgol yn ddiweddar i siarad â disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ei rôl fel deietegydd. Cafodd y plant gyfle i drafod pwysigrwydd

bwyta'n iach a sicrhau eu bod yn bwyta diet cytbwys yn ogystal â sut i ofalu am ein hiechyd corfforol. Cynlluniodd y plant blât o fwyd iach a gofynnodd nifer ohonynt gwestiynau synhwyrdd ac aeddfed i Gwawr am ei gwaith fel deietegydd. Diolch yn fawr iawn i Gwawr am gynnal sesiwn ddiddorol iawn.



# HELEDD FYCHAN

Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru

- 01443 853214
- Heledd.Fychan@Senedd.Cymru
- 2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ
- Heledd Fychan AS / MS
- @Heledd\_Plaid
- @Heledd\_Plaid



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

## Ysgol Garth Olwg

### Llangrannog

Cyrhaeddais yr ysgol a dechreuodd y daith wrth i mi neidio ar y bws mawr glas sgleiniog oedd yn llawn mwy o blant nag y gallwn i gyfrif! Ond roedd un broblem – rwy'n casáu teithio gan fy mod yn mynd yn sal iawn. Pan gyrhaeddodd aethom i gael cinio, a oedd yn sglodion a nygyts blasus, ond cefais innau fersiwn llysieuol. Ein gweithgaredd cyntaf oedd saethyddiaeth – roeddwn wrth fy modd, roedd yn anhygoel. Dechreuom drwy ymarfer ac wedyn chwarae gemau bach fel pa dîm allai gael y mwyaf o bwyntiau, a pha dîm allai gael y mwyaf o bobl i sgorio'n uwch na rhywun ar y tîm arall – ac yn amlwg enillon ni!

Yna aethom at y gweithgaredd nesaf, cartio, ac roeddwn i'n byrstio gyda chyffro. Wrth i mi gael fy nghlymu i mewn i'r go-kart, roeddwn wrth fy modd. Wedyn bu'n rhaid i ni eu profi drwy stopio a dechrau. Llwyddais, ac yna es i heibio pawb fel fflach ac enillais. Y gweithgaredd nesaf oedd rhaffau uchel – dyma beth oeddwn yn fwyaf cyffrous amdano. Cefais fy mharu gyda Morgwn, aeth ef yn gyntaf a minnau'n gwylio o'r ddaear. Yna fy nhro i – llwyddais gyda'r holl heriau'n rhwydd, ond roedden nhw mor hwyl. Ar ôl swper aethom am dro i lawr i'r traeth, felly newidiais i'r peth mwyaf cynnes a chyfforddus oedd gen i, gyda het flewog fawr a menig trwchus.



diwedd daeth ein tro. Rhedon ni i fyny'r grisiau'n hynod gyflym, ond cyn y wifren wib roedd rhaid gwneud “drop” – roedden nhw'n rhoi rhaff arnat ac wedyn gadael i ti syrthio. Roeddet ti'n mynd yn gyflym ac yna'n arafu wrth gyrraedd y gwaelod – argymhellwn yn fawr, mor hwyl! Yna daeth y rhan roeddwn mor gyffrous amdani – y wifren wib. Roeddwn yn gallu teimlo'r twr yn crynu o danaf ac yn teimlo'r aer oer yn fy nharo ar fy wyneb bob tro. Daeth ein tro – cawsom ein cysylltu â hi ac yna aethom. Roedd fy nghalon yn curo gyda llawenydd wrth i ni lithro i lawr. Roeddwn yn ffrwydro gyda llawenydd.

Yna aethom i nofio! Rwy'n caru mynd o dan y dŵr felly dyna wnes i – ond heb ogls gan fy mod yn gallu gweld o dan y twr. O dan y twr gwneuthum fflipiau cefn, fflipiau blaen a phob math o fflipiau eraill! Roedd mor hwyl. Nawr daeth ein gweithgaredd nesaf – fe alwais i'n syml yn “y neidio”, gan fod yn rhaid i chi neidio oddi ar twr ar fag oddi tano. Roedd fy nghalon yn curo gydag ofn a llawenydd. Roedd un broblem – fi oedd gyntaf yn y ciw, felly es i'n gyntaf. Pasiaws lefel 1 fel pe na bai dim yno. Felly ymlaen i lefel 2, a oedd yn llawer, llawer uwch na lefel 1. Dyma pryd y daeth yr ofn go iawn. Teimlais yr aer ar fy wyneb a'r twr yn symud oddi tano fi, ond rhedais i ffwrdd o'r twr. Teimlais bopeth o'm cwmpas ac roeddwn yn gweld popeth – a phasiaws. Pan dwi'n dweud “pasio”, mae'n golygu roedd yn rhaid glanio ar dy gefn/pen ôl i basio. Yna daeth yr ofn mwyaf erioed – ond cefais dipyn o gyngor: “peidiwch â meddwl amdano”. Felly neidiais yn syth i ffwrdd. Teimlodd fel pe bai amser wedi rhewi o'm cwmpas, yna BANG – glaniais ar y bag ac ailgychwynodd amser. Wedi imi fynd i ffwrdd meddyliais: “Rwy am wneud hynny eto!” Roedd yn llawer mwy o hwyl nag oeddwn i'n ei ddisgwyl – profiad gwych.

Yna, y disgo oedd nesaf, ac roeddem yn cael amser gwych yn dawnsio a chanu. Ar gyfer y disgo, gwisgais traciwt du. Roedd y disgo mor hwyl a chwîl. Ar ôl y disgo, cawsom sioe dalent, roeddem ni'n gyntaf ac fe ganodd Elsi a fi *rapsgaliwn* gyda Mrs. Llwyd. Roedd yna llawer o dalentau fel canu, actio a mwy.

Y gweithgaredd cyntaf ar y bore olaf oedd gweithgareddau tîm fel dod â phib bambw i'r llawr gan ddefnyddio cefn ein bysedd – mae'n swnio'n haws nag oedd! Methwyd, ond roedd hi'n hwyl. Yr ail dasg oedd pos – roedd hi'n anodd, ond llwyddom. Roeddem y tîm cyntaf i orffen. Yna sgîo – roeddwn wrth fy modd! Yna'r

gwiwbartio – roedd yn gymaint o hwyl, ond roedd yn draenio eich coesau wrth gerdded lan – ond yn werth chweil.

Daeth ein hamser yn Llangrannog i ben – roedd hi'n dridiau llawn hwyl!

Gan Ivy Davies, Blwyddyn 7

### Only Boys Aloud

Cafodd fechgyn blwyddyn 7 ac 8 llawer o hwyl yn y gweithdy Only Boys Aloud. Roedd llawer o ganu a gemau wedi cael eu chwarae ac roedd pawb wedi mwynhau mas draw. Diolch i Aled am ddod draw gyda'i enni heintus.



### Music Theatre Wales

Cafodd Branwen Parker o flwyddyn 12 brofiad arbennig o fod yn rhan o brosiect ‘Music Theatre Wales’ oedd yn hybu cyfansoddwyr ifanc. Dyma beth ddywedodd hi am y cyfle - Ges i fy newis i fod yn rhan o'r rhaglen cyfansoddwyr ifanc. Yn ystod y rhaglen hon, ges i'r cyfle i weithio gyda'r

Athro Luke Lewis o New College, Rhydychen, aelodau o'r gerddorfa Sinfonia Cymru yn ogystal ag aelodau o Music Theatre Wales. Dros gyfnod o 6 mis, dysgais sut i ddarllen ac ysgrifennu ar gyfer offerynnau newydd yn ogystal â sut i ysgrifennu ar gyfer pedwarawd o offerynnau nad ydw i'n chwarae.

Ges i fy mentora gan Luke Lewis dros nifer o alwadau addysgol. Dysgais sut i strwythuro ac i greu darn sy'n adlewyrchu stori. Yn nodiadol, dysgais sut i ysgrifennu cerddoriaeth ar gyfer cerddorfa byw. Ar ddiwedd y cyfnod ysgrifennu, ges i fy ngwahodd i weld y pedwarawd yn perfformio fy narn yn Theatr Parc a'r Dâr. Roedd y profiad hwn yn un unigryw a bythgofiadwy. Ges i'r cyfle i greu ffrindiau gyda nifer o bobl gyda'r un diddordebau a fi. Yn sicr, mae'r profiad hwn wedi fy nysgu nifer o sgiliau defnyddiol ar gyfer fy Lefel A Cerddoriaeth yn ogystal ag ar gyfer ysgrifennu cerddoriaeth gyda'r band 'Rhyddid'. Rwy'n ddiolchgar iawn i gael y cyfle gwych hwn.



Ein gweithgaredd cyntaf ar yr ail ddiwrnod oedd beiciau pedair olwyn, ond gan fod cymaint ohonom, anfonwyd hanner ohonom i wneud y wal ddringo yn gyntaf – fi yn eu plith. Gwelais bobl yn dringo'n uwch ac yn uwch bob munud, ac yn y diwedd daeth fy nhro. Cefais fy nghlymu'n ddiogel yn fy harnais ac, er mwyn bod hyd yn oed yn fwy diogel, gwisgais helmed. Roeddwn mor gyffrous amdano! Yn gyntaf roedd rhaid dringo i'r llinell goch, a gwnes i'n hawdd, ac yna neidio i lawr. Y rhan hwyl wedyn oedd dringo i'r brig ddwywaith! Gwneuthum hynny'n hynod gyflym ac roedd yn llawer o hwyl.

Nawr roedd hi'n amser i wneud y beiciau pedair olwyn. Dechreuon ni hedfan o gwmpas y trac – roedd yn HWYL ENFAWR! Prin oedd gennym amser i anadlu pan ddywedodd “gweithgaredd nesaf”, felly dilynon ni ef i'r wifren wib.

Rhoeson ni'r harnais a'r helmed ymlaen ac aros yn y ciw hir, hir, hir, hir. Ond yn y

## Ysgol Garth Olwg (parhad)

### Gweithdy Mei Gwynedd

Ar ddechrau Mis Medi cafodd cerddorion Ysgol Garth Olwg y profiad arbennig o weithdy efo'r cerddor Mei Gwynedd. Daeth mewn ar ddau ddiwrnod i gyfansoddi caneuon efo criw o ddisgyblion. Roedd yr Bandiau Lanstar a Rhyddid wedi datblygu caneuon mewn ychydig o oriau o dan ei oruchwyliaeth. Cafodd hefyd griw o flwyddyn 9 gyfle i weithio gyda'r cerddor am y tro cyntaf. Gwnaethant greu cân wreiddiol eu hunain ac maent yn galw eu hunain yn 'Sannau Melyn'. Edrych ymlaen i glywed mwy ganddynt!



### Ymweliad Heledd Fychan

Diolch i Heledd Fychan am ddod i siarad gyda chynrychiolwyr fforymau'r ysgol fel rhan o'n rhaglen hyfforddiant llais y disgybl eleni. Roedd y disgyblion wedi dysgu llawer ac roedd yn ddi-ddorol iawn i glywed atebion Heledd i'w cwestiynau.



### Prif Swyddogion

Longyfarchiadau i'n Prif Swyddogion am eleni sef Seren Kyte a Gruff Jones ac i'n dirprwyon Miley Goss, Lauren Knight, Iestyn Maidment ac Ava Martin-Thomas. Edrych ymlaen at flwyddyn brysus!



### Canlyniadau TGAU a Safon Uwch

Mae cymuned Ysgol Garth Olwg yn falch iawn o ddatlu llwyddiant ein myfyrwyr Uwch Gyfrannol, Lefel A a TGAU. Mae eu canlyniadau'n adlewyrchu eu gwaith caled, eu dyfalbarhad a'u hymrwymiad dros gyfnod heriol, ac maent yn llawn haeddu pob llwyddiant. Mae'n ffrind i'r staff, rhieni a gofalwyr weld ein dysgwyr dawnus yn derbyn canlyniadau sy'n agor drysau i'r Chweched, y brifysgol, prentisiaethau, y byd gwaith ac anturiaethau newydd. Diolch o galon i'n staff ymroddedig, ac i'r teuluoedd am eu cefnogaeth barhaus i'r myfyrwyr.

Fel cymuned ysgol 3-19, rydym yn hynod falch o weld cynnydd ein dysgwyr o'r blynyddoedd cynnar hyd at y camau olaf cyn gadael yr ysgol. Llonyfarchiadau gwresog i bawb am gyrraedd carreg filltir mor bwysig, ac edrychwn ymlaen at glywed am eu llwyddiannau yn y dyfodol.



## Pwyslais ar 'hwyl' Diwrnod Shwmae Su'mae



Cael hwyl wrth siarad Cymraeg bydd prif thema **Diwrnod Shwmae Su'mae 2025** wrth i Mentrau Iaith Cymru baratoi ar gyfer y digwyddiad blynyddol. Bydd yr ymgyrch yn cyrraedd uchafbwynt ar ddiwrnod cenedlaethol o ddatlu, dydd Mercher, 15 Hydref.

Eleni, bydd yr ymgyrch yn annog pobl i rannu clip fideo o'u hunain yn mwynhau gweithgaredd yn y Gymraeg gan fachu ar fomentwm blwyddyn 'Hwyl' Croeso Cymru.

Meddai Myfanwy Jones, Cyfarwyddwr Mentrau Iaith Cymru, "Bydd dathliadau Diwrnod Shwmae Su'mae 2025 yn pwysleisio'r 'hwyl' sydd i'w gael wrth siarad Cymraeg. Ein nod yw dathlu'r ystod eang o weithgareddau sy'n dod â phleser i ni fel siaradwyr Cymraeg a thynnu sylw at y gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan glybiau, mudiadau ac ysgolion drwy Gymru gyfan i sicrhau bod modd i ni wneud nhw yn Gymraeg.

Mae senniadau i ddatlu'r diwrnod ar gael ar wefan Shwmae Su'mae - shwmae.cymru - gyda sticeri, ffrâm hunlun a swigod 'shwmae' ar gael i'w lawrlwytho. Ac mae croeso i chi gysylltu â [diwrnodshwmae@gmail.com](mailto:diwrnodshwmae@gmail.com) neu eich Menter Iaith leol.

Cofiwch ddefnyddio'r hashnodau #Hwyl a #shwmaesumae25 a thagio @ShwmaeSumae ar Facebook neu @diwrnodshwmaesumae ar Instagram a TikTok.



## Ysgol Llanhari

### Croeso nôl


Croeso mawr i bawb nôl i'r ysgol ac i'n disgyblion newydd sbon ni yn nosbarth Dewi Draenog. Rwy'n siwr bydd pawb wrth eu boddau ac yn cael llawer o hwyl yn chwarae ac ymchwilio gyda'i ffrindiau newydd.

### Dathlu yn Ysgol Llanhari

Braf iawn oedd gweld disgyblion y chweched dosbarth, staff a rhieni yn dathlu llwyddiant canlyniadau ardderchog Safon Uwch. Rydym yn hynod o falch bod 100% o'r disgyblion wedi cyrraedd y Trothwy Lefel 3. Rydym yn hapus iawn bod 71% o'r disgyblion wedi llwyddo i ennill graddau A\*-C mewn tri neu fwy o bynciau Safon Uwch gyda 90% o'r disgyblion yn ennill 3 gradd A\*-E. Dathlwn hefyd lwyddiant yr holl ddisgyblion sydd wedi cyrraedd eu potensial ac sydd wedi gweithio yn ddygn a chael eu haeddiant. Llongyfarchiadau i'r holl athrawon a disgyblion a dymunwn yn dda i'r bobl ifanc fydd yn cychwyn ar fyd gwaith neu yn parhau â'u hastudiaethau mewn prifysgolion neu golegau ymhob cwr o'r wlad.

### Wrth ein bodd gyda chanlyniadau TGAU ardderchog blwyddyn 11 yn Ysgol Llanhari

Mae'n rhaid dathlu eto yn Llanhari! Cyhoeddwyd canlyniadau TGAU arbennig ac unwaith eto eleni, penllanw dwy flynedd o lafur caled a dyfalbarhad gan ddisgyblion a staff yw'r canlyniadau TGAU. Mae'r canlyniadau yma yn adeiladu ar sylfaen a osodwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Testun balchder arbennig yw'r ffaith bod 100% o'r disgyblion wedi llwyddo i ennill 5 neu fwy o raddau A\*-G ac o 'rheiny mae 87.5% wedi llwyddo i ennill 5 neu fwy o raddau A\*-C, gyda 19% o'r garfan yn ennill 5 neu fwy o raddau A\*-A. Prin oedd yr wynebau siomedig wrth inni fel ysgol ddathlu blwyddyn arall o ganlyniadau cadarn lle llwyddodd disgyblion ar draws yr ystod gallu i gyrraedd eu nodau personol, gan amlygu ymroddiad arbennig i'w hastudiaethau. Dathlwn fel staff a rhieni bod y disgyblion wedi gwireddu eu potensial ac edrychwn ymlaen i weld nifer fawr ohonynt yn datblygu ymhellach fel aelodau o'n chweched dosbarth ffynniannus. Llongyfarchiadau gwresog i chi gyd!



### Taith i'r BBC

Roedd disgyblion o flwyddyn 3 a 4 wedi bod yn ffodus iawn i gael cyfle arbennig i ymweld â stiwdios BBC yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Yn ystod y daith, cawsom groeso cynnes gan y staff. Roedd y disgyblion wedi cyffroi'n llwyr pan gawson nhw eu henwi ar un o'r rhaglenni radio – profiad cyffrous a bythgofiadwy i bawb! Cawsom gipolwg tu ôl i'r lleni ar y stiwdio newyddion, lle gwelsom sut mae'r newyddion yn cael ei ddarlledu'n fyw. Roedd y daith yn gyfle gwych i ddysgu am y cyfryngau, ac i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o newyddiadurwyr a chyflwynwyr.



### Prif swyddogion

Pleser mawr yw cyflwyno ein prif swyddogion newydd i bawb. Diolch iddynt am eu brwdfrydedd ac edrychwn ymlaen at eu gweld yn cynrychioli'r ysgol mewn



digwyddiadau ac yn cefnogi eu cyfoedion ar hyd y flwyddyn. Llongyfarchiadau iddynt.

### Taith i Gaerdydd gyda Blwyddyn 7

Yn ddiweddar, aeth disgyblion Blwyddyn 7 Ysgol Llanhari ar gwrs preswyl i Fae Caerdydd – cyfle gwych i gymdeithasu â'u ffrindiau newydd a chreu atgofion arbennig ar ddechrau'r flwyddyn. Cyrhaeddodd y grŵp y bae llawn cyffro ac yn barod am antur. Ymhlith y gweithgareddau mwyaf poblogaidd oedd taith gyffrous ar gwch o amgylch y bae, lle cawsant weld golygfeydd trawiadol o'r dŵr a'r adeiladau eiconig o'u hamgylch. Yn nes ymlaen, cafodd y disgyblion gyfle i fwynhau sesiwn bowlio deg. Roedd y noson yn llawn hwyl. Roedd y staff yn falch iawn o'r ffordd y bu'r disgyblion yn cydweithio ac yn dangos parch tuag at ei gilydd drwy gydol y daith.



### Cystadleuaeth Gwyddorau

Llongyfarchiadau enfawr i ddisgyblion blwyddyn 11 am fuddigoliaeth yn rownd derfynol her gwyddorau bywyd. Cyntaf dros Gymru. Da iawn chi.



## Ysgol Creigiau

### Prynhawn Cwrdd a Chyfarch

Diolch yn fawr i'n teuluoedd am ddod i'n diwrnod 'Cwrdd a Chyfarch' brynhawn Gwener, 19eg Medi. Cawsant gyfle i gwrdd ag athro/athrawes newydd eu plentyn, cwrdd â staff eraill sy'n gweithio yn y dosbarth, gweld ystafell ddosbarth newydd eu plentyn a phrofi gweithgareddau y mae'r disgyblion eisoes wedi ymgysylltu â nhw. Roedd y disgyblion wedi mwynhau cael eu teuluoedd a'u ffrindiau'n ymweld â'u dosbarth! Cynhaliodd Cyfeillion Ysgol Creigiau Arwrthiant Cacennau llwyddiannus yn ystod y prynhawn hefyd - trit hyfryd i bawb ar ddiwedd wythnos brysur!

### Seiclo i Ddisgyblion Blwyddyn 6

Yn ddiweddar mae disgyblion Dosbarth 6 a Class 6 wedi derbyn gwersi seiclo gan swyddogion diogelwch y ffordd Cyngor Caerdydd. Dysgon nhw reolau'r ffordd fawr a sut i ofalu am eu beiciau. Mwynheuedd nhw'r profiad yn fawr.

### Llangrannog

Croeso nôl i ddisgyblion Dosbarth 6 wedi iddynt dreulio tridiau yn y Gwersyll ger y lli! Roedd pob un wedi mwynhau'r antur yn fawr iawn ac wedi dangos ymddygiad ac agwedd arbennig drwy gydol yr awser. Da iawn chi blant! Diolch yn fawr iawn i Mrs Watkins, Mrs Tewkesbury a Miss Davies am fynd gyda'r disgyblion.



Dosbarth 6 yn mwynhau yn y Gwersyll ger y Lli!

### Pwyllgorau'r Ysgol

Mae pob un o'n disgyblion CA2 wedi cael y cyfle, os dymunant, i gynrychioli eu dosbarth ar un o'n pwyllgorau ysgol eleni. Cawsom lawer o bosteri a llythyron ardderchog - da iawn bawb! Bydd ein pwyllgorau Siarter Iaith, Criw Cymraeg, Lles, Cyngor Ysgol a Pharchu Hawliau, Eco a SNAG yn cyfarfod bob dydd Mawrth.



Cyngor Ysgol

### CAVMS

Yn ddiweddar cafodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 gyfle i wrando ar amrywiaeth o offerynnau chwythbrennau a phres yn cael eu canu. Mae CAVMS (Cardiff and the Vale Music Service) yn cynnig gwersi offerynnol i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2. Cynigir gwersi gitâr, llinynnol, pres, piano, chwythbrennau a drymiau. Cynigir gwersi telyn a phiano hefyd gan Mrs Lois Davies.



### Ymweliad Blwyddyn 5 â Chastell Caerdydd

Aeth disgyblion Dosbarth 5 a Class 5 ar ymweliad â Chastell Caerdydd i gymryd rhan mewn gweithdy Ail Ryfel Byd ac i brofi y llochesi cyrch awyr sydd yn waliau'r castell. Diolch i'r Wardeniaid Cyrch Awyr, Mark a Dave, ac i'r staff eraill am ddod â hanes yn fyw i'n disgyblion. Mwynheuedd pob un y profiad.



### Gwelliannau i'n Hysgol!

Mae wedi bod yn haf gwirioneddol brysur ar safle'r ysgol tra roedden ar wyliau. Rydym yn falch bod y Cyngor wedi ariannu prosiect i adnewyddu holl ffenestri a drysau'r prif adeilad, am wahaniaeth mae hynny wedi'i wneud!

Rydym hefyd wrth ein boddau, diolch i gefnogaeth ein teuluoedd i ddigwyddiadau codi arian Cyfeillion yr Ysgol, bod gennym nawr adeilad newydd yng ngardd yr ysgol fydd yn sicrhau bod ein dysgu awyr agored yn gallu parhau ym mhob tywydd. Diolch o galon i Phil a'i dîm (Shoots and Roots Landscaping) am eu holl waith caled! Rydym yn dwlu ar ein dosbarth allanol newydd.



Meithrinfa wrth eu boddau yn y dosbarth yn yr ardd



Dosbarth 4 yn y dosbarth allanol

Cawsom hefyd ail farcio rhai o'n gemau iard presennol a marcio'r iard gyda gemau newydd i'r disgyblion. Mae'r disgyblion wrth eu boddau'n chwarae ar y gemau amrywiol. Diolch eto i Gyfeillion yr Ysgol am dalu am y marciau iard ac i'n teuluoedd am gefnogi digwyddiadau codi arian y Cyfeillion.



Dosbarth 2 yn mwynhau chwarae ar y marciau iard newydd

### Her Tetrahedron

Cymerodd disgyblion Dosbarth 4 a Class 4 ran mewn gweithdy Her Tetrahedron. Buont yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm i adeiladu Tetrahedron anferth gan ddefnyddio rhodenni hoelbren a bandiau elastig. Roedd angen llawer o amynedd a dyfalbarhad arnynt a dangoson nhw eu bod yn ddsygwyr uchelgeisiol a galluog. Da iawn - gwaith tîm arbennig!

### Gweithgareddau Awyr Agored yr Urdd

Daeth Emma a Cian, Swyddogion Gwasanaethau Awyr Agored yr Urdd, i'r ysgol i weithio gyda disgyblion Dosbarth 4 a Class 4. Mwynheuedd nhw weithgareddau cyfeiriannu, gweithgareddau adeiladu cysgodfannau gan ddefnyddio adnoddau naturiol yn yr ardd a gweithgareddau cynnau tanau gan ddefnyddio fflint. Roedden nhw wedi rhoestio malws melys yn y pydew tân a defnyddion nhw fisgedi siocled i wneud s'mores! Mwynheuedd nhw yr amrywiaeth o weithgareddau yn fawr iawn a chydweithiodd pawb yn wych. Diolch Emma a Cian!





**Menter Iaith**  
Rhondda Cynon Taf

01443 407570

[www.menteriaith.cymru](http://www.menteriaith.cymru)

### Gŵyl Morfydd Owen – Hydref 10 – 12

Mae'r Fenter Iaith wedi bod yn cydweithio'n agos gyda threfnwyr Gŵyl Morfydd eleni i ddatblygu'r Wyl. Llynedd cynhaliwyd yr Wyl gyntaf, oedd yn gyfres o ddigwyddiadau llwyddiannus gyda'r Gymraeg i'w weld a'i glywed ochr yn ochr â'r Saesneg drwy'r rhaglen.

Mae'r Fenter wedi bod yn llwyddiannus gyda chais grant Creu gan Gyngor Celfyddydau Cymru i allu ychwanegu mwy o ddigwyddiadau tuag at arlwy'r Wyl.

Ar nos Wener Hydref 10fed bydd gig ieuencid yng Nghlwb y Bont, yn rhoi llwyfan i fandiau ifanc Cymraeg i berfformio ar gyfer pobl ifanc Rhondda Cynon Taf. Bydd Dros Dro, enillwyr Cân i Gymru 2025, Penbleth, sydd wedi dod trwy raglen Yn Cyflwyno Menter Caerdydd a Trydanol, enillwyr Brwydr y Bandiau Eisteddfod leol Pontypridd yn perfformio.



Dros Dro, Penbleth, Trydanol

Ar y dydd Sadwrn, bydd perfformiadau stryd gan artistiaid yn ogystal â ParkRun i redwyr brwd yr ardal.

Bydd sesiwn Cylch Canu i Ddysgwyr a Siaradwyr Newydd dan arweiniad Antwn Owen Hicks yng Nghlwb y Bont am hanner dydd, ffordd hwyliog i ddysgu caneuon gwerin (a bydd y bar ar agor!).



Bydd arddangosfa yng Nghlwb y Bont hefyd yn ystod y prynhawn. Cyfle i weld gwaith a grëwyd yn wreiddiol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd - *Dathlu Menywod ac Addysg Gymraeg yn*



*RhCT* – gwaith a grëwyd fel rhan o brosiectau, *Gwlad Newydd y Merched a Cwilt Er Clod i Ferched Rhondda Cynon Taf*, gan Merched y Wawr a'r Fenter i ddathlu hanes a chyflawniadau menywod ac addysg Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r gwaith yn adrodd straeon lleol pwerus — o addysgwyr blaengar i ymgyrchwyr ysbrydoledig.

Bydd gig gan The Gentle Good yn Nghlwb y Bont am 9.30pm – mae Gareth Bonello yn artist lleol poblogaidd iawn sy'n llwyddo i greu naws hamddenol ar ddiwedd diwrnod llawn o weithgareddau!

Yna ar y dydd Sul am 4pm, bydd Gymanfa Ganu newydd yn dechrau ym Mhontypridd yng Nghapel y Bont, cartref Eisteddfod leol Pontypridd.

Elin Llywelyn Williams fydd yn arwain, a Jeffrey Howard yn cyfeilio ar yr organ. Cyflwynir y Gymanfa gan Cath Woolridge.

Ry'n ni'n gobeithio bydd y Gymanfa yn uchafbwynt i'r penwythnos, ac yn dod yn ddigwyddiad blynyddol lleol ym Mhontypridd.

Yn ogystal â'r weithgareddau hyn, mae llawer, llawer mwy o weithgareddau i'w mwynhau drwy'r penwythnos – 31 digwyddiad gwahanol!

Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill bydd pared lampau ar brif stryd Pontypridd p'nawn dydd Gwener a oedd yn wledd i'r llygaid llynedd, bydd Amy Wadge yn perfformio yn y Muni ar nos Wener, Sadwrn a Sul, sgwrs a gân i gofio am Morfydd gyda Dr Rhian Davies a'r soprano Jessica Robinson (wnaeth gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd 2023) bore Sadwrn yn yr Amgueddfa, perfformiad gan Vri yn Amgueddfa Pontypridd p'nawn dydd Sadwrn, a bydd taith gerdded drwy strydoedd Trefforest i drafod lleoedd a manau arwyddocaol ym mywyd Morfydd amser cinio dydd Sul – cyn y Gymanfa!

Am fwy o fanylion, ewch i wefan yr Wyl:

[Gŵyl Morfydd Owen Festival 2024](http://www.menteriaith.cymru)

### Clebran ar GTFM

Clebran yw rhaglen radio Cymraeg fywiog ar GTFm, sy'n cael ei ddarparu bob nos Sul am 8yh fel rhan o'r Sesiwn Sul. Mae'n llwyfan arbennig i bobl ifanc lleol rannu eu barn, straeon a syniadau – o sgwrsio am eu bywydau bob dydd, i drafod trendiau'r tymor, 'ie' yr wythnos, a llawer mwy!

Gallwch wrando'n fyw ar y radio, ar eich seinydd clyfar, neu drwy ap GTFm. Ac os ydych chi'n colli'r darllediad, peidiwch â phoeni – mae modd gwrando eto am hyd at 90 diwrnod ar ôl i'r rhaglen fynd allan.

Ymunwch â'r sgwrs, cefnogwch dalentau lleol, a mwynhewch Clebran!

### Sesiynau Addysg Oedolion wedi Ailgychwyn

Mae ein sesiynau addysg oedolion wedi ail-ddechrau. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys:

- Clwb Caru Canu i rieni newydd a phlant bach ym Mhontypridd
- Yoga Cadair yn Nhabernacl Efail Isaf
- Dosbarth dysgu ukuleles dwyieithog yn Nhonyrefail
- Clwb Cymraeg i ddysgwyr yng Nghlwb y Bont, Pontypridd

Mae croeso i bawb, waeth beth fo'u profiad neu lefel hyder. Mae'r sesiynau hyn yn gyfle i ddysgu sgiliau newydd, cwrdd â phobl eraill, a mwynhau gweithgareddau mewn awyrgylch gyfeillgar.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn am bob gweithgaredd ar ein gwefan: [www.menteriaith.cymru](http://www.menteriaith.cymru) neu drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Am ymholiadau, cysylltwch â: [gweithgareddau@menteriaith.cymru](mailto:gweithgareddau@menteriaith.cymru)



### CROESO!

Dyddiadau i'r dyddiadur!  
Am fwy o fanylion neu i brynno tocynnau:  
[WWW.CLWB-Y-BONT.CYMRU](http://WWW.CLWB-Y-BONT.CYMRU)  
[WWW.TICKETSOURCE.COM/CLWB-Y-BONT](http://WWW.TICKETSOURCE.COM/CLWB-Y-BONT)



10.10.25	Gig ieuencid: Dros Dro, Penbleth a Trydanol
11.10.25	Cylch Canu gydag Antwn Owen-Hicks
11.10.25	Ardangosfa Cwilt Er Clod a Gwlad Newydd y Merched
11.10.25	Gig The Gentle Good
18.10.25	Lansiad Llyfr Cymoedd Lois Roberts gyda Parti'r Efail
19.10.25	Gig Eve Goodman + SERA
23.10.25	Theatr Bara Caws: Oes rhywun wedi gweld y Pernod King?
29.10.25	Clwb Ffilm: Gwledd
30.10.25	Cwis Dwyieithog Misol